# Y BIGWN

CYF. 35 RHIF 2 EBRILL 2023 *Papur Bro Dinbych* *Pris £1*

# Pleser o'r Creu



Pasg Hapus gan Maurieen a Karen, Siop y Parc




Cadair Eisteddfod Nantglyn 1911 (t.11)



Celyn Hughes (t. 22)




John Meredydd Roberts yn Stadiwm Lusail, Qatar (t.13)



Stadiwm Lusail, Qatar (t. 13)

# Dathlu Gŵyl Dewi



Dathlu'r Ŵyl



Ysgol Uwchradd Dinbych




Popeth Cymraeg




Cwmni Gwerthu a Rhentu Tai 'Monopoly' (1af)




Siop Flodau Reebees (Ail)




Fferyllfa Royles (3ydd)



Uned dan 7 Ysgol Twm o'r Nant

## Busnesau Dinbych a'r sir yn rhoi dathliadau Dydd Gŵyl Dewi yn ffenest siop

Cymrodd busnesau o bedair tref yn Sir Ddinbych, Prestatyn, Rhuddlan, Dinbych a Rhuthun ran yng nghystadleuaeth ffenest siop flynyddol Menter Iaith Sir Ddinbych i nodi dathliadau Dydd Gŵyl Ddewi.

Yn Ninbych, y siopau ddaeth i'r brig yn y gystadleuaeth oedd cwmni gwerthu a rhentu tai, Monopoly; yn ail, siop flodau Reebees ac yn drydydd, daeth Fferyllfa Royles. Llongyfarchodd Maer y dref, Alyn Ashworth, yr holl siopau fu'n rhan o'r gystadleuaeth yn y dref.

Mae dathlu Gŵyl ein Nawddsant, trwy addurno ffenestri siopau yn rhoi'r cyfle i fusnesau ymgysylltu â chwsmeriaid a rhoi'r statws dyledus i'r digwyddiad cenedlaethol pwysig hwn.

"Rydym yn falch iawn o weld cefnogaeth gan nifer o fusnesau sy'n sylweddoli gwerth masnachol defnyddio'r Gymraeg a'r diwylliant o fewn eu busnesau," eglura **Iorwen Jones** o Fenter Iaith Sir Ddinbych.

"Mae trefnu'r digwyddiad hwn yn dangos ein cefnogaeth, fel Menter, i fusnesau annibynnol lleol yn Ninbych sy'n gweithio'n galed i ddenu cwsmeriaid a hyrwyddo eu cynnyrch mewn amrywiol ffyrdd, gan gynnwys rhoi lle dyledus i'r Gymraeg a Chymreictod.

"Rydym yn ddiolchgar i bob un o'r busnesau a ymgysylltodd â ni trwy'r gystadleuaeth, a hynny trwy ddangos creadigrwydd, cynnyrch a lliw Cymreig bendigedig yn ffenestri eu siopau. Mae'n wych gweld cymaint o fusnesau eisiau hybu eu Cymreictod o fewn trefi Sir Ddinbych."

Mae Menter Iaith, sy'n elusen, yn ddiolchgar am holl gefnogaeth ei phartneriaid, wrth iddynt weithio i hybu defnydd o'r Gymraeg ym mywydau pob dydd trigolion y sir. Eleni roedd Cynghorau Tref Rhuthun, Dinbych, Prestatyn a Rhuddlan yn bartneriaid yn y gystadleuaeth wrth gefnogi'r gweithgareddau yn eu trefi priodol.

Meiri'r Dref fu'n beirniadu ffenestri'r siopau ym mhob un o'r pedair stryd fawr gyda gwobrau'n cael eu rhoi i'r tri busnes buddugol ym mhob tref. Roedd y beirniaid yn sgorio pwyntiau am greadigrwydd, defnydd o'r iaith Gymraeg, cyfeiriadau at Ddewi Sant a diwylliant Cymru, fel rhan o'i rôl.

## Dathlu Gŵyl Dewi

Rhoddodd tref Dinbych naws arbennig i ddathliadau Dydd Gŵyl Dewi ar y cyntaf o Fawrth, wrth i dros 500 o bobl ifanc orymdeithio i fyny Stryd y Dyffryn dan arweiniad seiniau hyfryd Band Cambria.

Daeth y digwyddiad, a drefnwyd mewn partneriaeth rhwng Menter Iaith Sir Ddinbych, Grŵp Cynefin, Cyngor Tref Dinbych ac Urdd Gobaith Cymru gyda chefnogaeth Heddlu Gogledd Cymru, â phlant ysgol o ysgolion cynradd ac uwchradd yn Ninbych a'r cyffiniau ynghyd i ddathlu nawddsant cenedlaethol Cymru.

Gan arwain y ffordd o faes parcio Lidl i fyny Stryd y Dyffryn daeth trigolion a busnesau'r dref allan i gefnogi a mwynhau'r dathliadau, ac ymunodd disgyblion blwyddyn 7 Ysgol Uwchradd Dinbych â'r orymdaith am y tro cyntaf eleni. Yn yr un modd, ymunodd oedolion sy'n dysgu'r iaith gyda Phopeth Cymraeg â'r orymdaith am y tro cyntaf i flasu'r awyrgylch Gymreig sy'n cael ei chreu ar strydoedd Dinbych.

Hefyd yn bresennol roedd disgyblion o Ysgol Gymraeg Henllan; Twm o'r Nant; Bro Cinmeirch; Pant Pastynog; Tremeirchion; Cefn Meiriadog, Pendref, Frongoch a Choleg Myddelton.

Yn ôl **Ruth Williams**, Menter Iaith Sir Ddinbych: "Rydym yn falch iawn o weld cymaint o blant a phobl ifanc yn ymuno â ni i nodi Dydd Gŵyl Dewi. Mae cefnogaeth yr ysgolion a'u staff i'r dathliad i'w llongyfarch yn fawr.

"Mae nodi Dydd Gŵyl Ddewi yn un o uchafbwyntiau ein blwyddyn galendr, ac rydym yn falch o roi'r cyfle i bobl ifanc uniaethu â'u treftadaeth, iaith a diwylliant. Mwynhaodd y tîm a fu'n rhan o'r trefnu a'n partneriaid yr orymdaith yn fawr ac rydym yn ddiolchgar i bawb am eu cefnogaeth. Diolch Dinbych!"

Dywedodd **Ffion Pittendreigh**, o dîm Mentrau Cymunedol Grŵp Cynefin: "Mae Grŵp Cynefin yn falch iawn o fod yn rhan o'r digwyddiad hwn yn Ninbych ac rydym yn falch o roi cyfle i ddisgyblion o ysgolion cynradd ac uwchradd fynychu a nodi Dydd Gŵyl Dewi yn yr awyrgylch arbennig yma."

Derbyniodd **Alyn Ashworth**, Maer Tref Dinbych rodd o gennin gan ddau ddisgybl o Ysgol Uwchradd Dinbych i nodi'r achlysur y tu allan i neuadd y dref. Gyda Band Cambria yn cyfeilio, bu'r disgyblion yn canu cân adnabyddus Dafydd Iwan 'Yma o Hyd' ac anthem genedlaethol Cymru i gloi'r orymdaith ym mhen ucha'r dref.

Dywedodd Alyn Ashworth: "Cawsom fore hyfryd a dwi'n falch bod trigolion Dinbych wedi dod allan i gefnogi'r digwyddiad a nodi'r achlysur arbennig. Diolch yn fawr iawn i Fenter Iaith Sir Ddinbych a'r holl bartneriaid am eu gwaith trefnu a'u hymroddiad. Gadawodd pawb Ddinbych mewn hwyliau da, yn barod am fwy o ddathliadau Dydd Gŵyl Dewi yn eu hysgolion unigol."

## Wythnos o Ddathlu Cymreictod yn Ysgol Uwchradd Dinbych

Ar Ddydd Gŵyl Dewi, ymunodd disgyblion blwyddyn 7 â'r orymdaith i fyny'r dref. Cafodd Jac Salisbury ac Alfie Green, aelodau o Gyngor yr Ysgol, y fraint o gyflwyno cennin i'r maer tu allan i Neuadd y Dref. Yn y prynhawn, aethon ni i gartref Dolwen gyda chardiau Dydd Gŵyl Dewi. Roedd hyn yn brofiad gwerthchweil i'r disgyblion a'r preswylwyr.

Yn ystod y dydd, bu'r athrawon yn rhoi gwersi ar thema Cymru. Cafodd y disgyblion gyfle i gymryd rhan mewn cystadlaethau amrywiol yn eu gwersi Saesneg a Mathemateg.

Gyda'r nos, aeth criw bach o'r 6ed dosbarth i Theatr Twm o'r Nant i wylio'r ddrama 'Cariad yn Oes y Gin.' Dyma'r tro cyntaf iddyn nhw wylio cyflwyniad trwy gyfrwng y Gymraeg mewn theatr. Roedd yn brofiad gwerthfawr iawn iddyn nhw.

Ar ddydd Sadwrn y 4ydd o Fawrth, bu aelodau o'r Cyngor Cymraeg yn helpu i werthu lluniaeth ysgafn yn Eisteddfod yr Urdd yn yr ysgol. Mae'r Cyngor Cymraeg yn gweithio'n galed iawn yn casglu arian ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg yn yr ysgol.

**Linda Evans**

## RHESTR Y SWYDDOGION

**CADEIRYDD**
**Stan Lyall 813659**

**SWYDDOG HYSBYSEBION**
Nerys Ann Roberts
01745 814950

**GOLYGYDDION:**
Erfyl Williams (814832)
Dyfrig Berry (814362)
Morgan Cordiner (813387)
Martha Cordiner (813387)

**YSGRIFENNYDD**
Sian Rogers
siani77.sr@gmail.com

**TRYSORYDD**
Llifon Jones
Sŵn y Nant, 31 Y Maes,
Dinbych
LL16 3JR
llifonjones9@gmail.com

**CARTWNYDD**
Huw Vaughan Jones

**DOSBARTHWYR**
Llifon Jones (814677)
Dafydd Williams (813065)

**TEIPYDDION:**
Rhian Williams (816251)
Gwenan Ellis (813106)

**Ebost y Bigwn:**
gwybod@ybigwn.cymru

Cyhoeddwyd gan:
Gymdeithas y Bigwn
Cysodwyd gan Hywel Evans
hywel@hywel1310.plus.com

ac Argraffwyd gan
Wasg Helygain

**'Ariennir yn rhannol gan Llywodraeth Cymru'**

CYMRAEG

**Golygydd Mis Mai**
**Dyfrig Berry**

# Gair gan y Golygydd

Cafodd y Neuadd Goffa yn Ffordd yr Orsaf ei rhoi i'r dref gan Dr. Evan Pierce ym 1890 er cof am ei fam. Erbyn y 1970au roedd yr adeilad wedi mynd a'i ben iddo ond cafodd ei adfer a'i ailenwi yn Theatr Twm o'r Nant gan gael ei hagor yn swyddogol yn 1979 gan Kate Roberts.

Mae'n theatr gymunedol brysur a chaiff ei llogi ar gyfer cynyrchiadau drama, sioeau ffilm, cerddoriaeth a dawns. Mae'r Clwb Ffilmiau wedi hen sefydlu yno bellach.

Defnyddir y theatr ar gyfer gwersi offerynnol i blant, ymarferion bandiau a grwpiau drama ac ar gyfer ysgolion a choleg lleol yn ogystal â chynnal partïon pen-blwydd a ffrydio!!!

Mae'n theatr fodern groesawgar efo seddau cyfforddus, bar, arddangosfa gelf ac mae canmoliaeth i'r acwstics! Be well!

Nid yw'r theatr yn cael ei hariannu gan Gyngor Sir Ddinbych na Llywodraeth Cymru. Mae Cyngor y Dre yn cyfrannu at gostau'r insiwrans. Mae'r pwyllgor yn ceisio am grantiau pan yn addas ac yn ddyledus i'r cynllun 'Noson Allan' sef partneriaeth rhwng Cyngor y Celfyddydau a Chyngor Sir Ddinbych a drwy'r cynllun gellir llogi cwmnïau fel Cwmni Bara Caws.

Mae'r theatr, drwy bwyllgor o wirfoddolwyr, yn dibynnu ar incwm a ddaw o ffioedd llogi, gwerthiant tocynnau a rhoddion.

Mae Theatr Twm o'r Nant yn haeddu ein cefnogaeth fel aelodau o'r gynulleidfa a/neu fel gwirfoddolwyr.

---

Mae'n braf cael ymateb gan ddarllenwyr i straeon ac erthyglau sydd wedi ymddangos yn Y Bigwn ac yn dilyn yr hanes 'Cadair Gwilym R.' gan Berwyn Roberts yn rhifyn Ionawr eleni, cawsom, gan Eifion Lloyd Davies o Frynmawr ym Mlaenau Gwent, hanes ffactri Gwalia ym Mrynmawr oedd yn enwog dros y byd am wneud dodrefn pren yn yr 1930au. Mae'n bosib, yn ôl Eifion, mai cadair Gwilym R. oedd un o'r rhai olaf a grewyd yn y ffactri.

Diolch i Eifion, ysgrifennydd Cymdeithas Hanes Brynmawr. Cewch fwy o'r hanes ar dudalen 10.

Cawsom hefyd ymholiadau o ardal y Bala ac o Gomins Coch yn deillio o hanes Cadair Gwilym R.

Mae hanes dwy gadair eisteddfodol arall yn y rhifyn hwn. Mae dirgelwch ynglyn ag un sef Cadair Nadolig Sarn 1933 ond gwyddom fwy am Gadair Eisteddfod Nantglyn 1911. Mwy o waith ditectif!

---

Yn ddiweddar yn Neuadd y Dref fel rhan o gyfres o ddarlithoedd Treftadaeth Cyngor y Dref, cafwyd gan Wendy Grey-Lloyd dan y teitl 'Don't Look Back' ddarlith emosiynol oedd yn agoriad llygad i lawer ohonom.

Darlith oedd hon am blant ysgol 7-17 oed o The Ladies' College Guernsey a ddihangodd gyda'u hathrawon i Ddinbych fel ifaciwis oddi wrth erchyllterau'r Natsïaid ym 1940 ac aros yn ein plith yn Ninbych yn ddi-dor am bum mlynedd tan ddiwedd y rhyfel gan dderbyn eu haddysg yn Ysgol Howell's (Coleg Myddelton heddiw). Doedd dim gwasanaeth post rhwng Prydain a Guernsey a'r unig gyswllt oedd negeseuon 25 gair y Groes Goch i'r genethod a'u hathrawon.

Prin roedd y plant yn adnabod eu rhieni ar ôl dychwelyd pum mlynedd yn ddiweddarach. Edrychai'r rhieni'n hen, yn flinedig a thenau ac yn gwisgo hen ddillad yn sgîl byw o dan yr Almaenwyr. Bu'n anodd i rai plant addasu oherwydd yr holl flynyddoedd arwahan. Roeddent wedi mwynhau eu cyfnod yn byw gyda theuluoedd yn Ninbych gyda chyfleoedd i fynd i gefn gwlad a glan-y-môr a mwy heb orfod byw dan orthrwm y Natsïaid yn Guernsey.

Mae'r Ladies' College yn Guernsey heddiw efo ystafell gyda'r enw Denbigh Room fel arwydd o'u gwerthfawrogiad o garedigrwydd trigolion Dinbych ac mae cyswllt rhwng teuluoedd wedi parhau hyd heddiw.

**Erfyl**

## Dyddiadur

**Dydd Gwener Mai 5ed am 10 o'r gloch**
Paned a Sgwrs yn y Copper Pot

**Pnawn Mercher Mai 8fed am 1.30 o'r gloch,**
Clwb Ffilmiau Dinbych, Theatr Twm o'r Nant
Mynediad AM DIM.
"Only Two Can Play" (1962)
Peter Sellers fel llyfrgellydd rhwystredig yn Abertawe mewn trafferthion priodasol!! Comedi.

**Dydd Mercher Mehefin 14eg**
Ymweliad â'r Ysgwrn £10 y pen
Am fwy o fanylion cysylltwch â Nerys Ann 01745 814950

**Dyddiad cau Y BIGWN mis Mai**
**Pob dim i gyrraedd e-bost**
**Y Bigwn - gwybod@ybigwn.cymru erbyn**
**Ebrill 21**

## Eglwys Unedig Y Fron a'r Brwcws

Bore Sul Chwefror 19eg cynhaliwyd Oedfa'r Fro yng Nghapel y Dyffryn dan ofal Y Parch Andras Iago.

Bore Sadwrn Chwefror 23ain fe drefnwyd Bore Goffi i godi arian at Apêl Daeargryn Twrci a Syria. Fe gawsom gefnogaeth ardderchog ac mi fu pawb yn hynod o hael yn ariannol a gyda nwyddau i'w gwerthu a llwyddwyd i godi £470. Diolch i bawb.

Dydd Sul Chwefror 26ain yr oedd yr oedfa yn y Capel Mawr gyda'r Gweinidog yn gwasanaethu.

Bore Sul Mawrth 5ed cynhaliwyd oedfa undebol i ddathlu Gŵyl Dewi yn y Capel Mawr gydag aelodau capeli'r dre yn cymeryd rhan yn y gwasanaeth oedd wedi ei baratoi gan Y Parch Andras Iago. Fe wnaeth Mr Ednyfed Williams ganu emyn a Mr Gwilym Williams ledio emyn.

Bore Sul Mawrth 12fed fe wnaeth Rhianwen Williams, Llywydd y mis, estyn croeso a diolch i'r Parch Gareth Edwards, Deganwy, am ei wasanaeth.

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Aledwen Jones. Yr oedd Aledwen yn aelod yng Nghapel Nantglyn ond wedi iddi symud i fyw i Ddinbych yr oedd yn ffyddlon iawn yn y Fron yn yr holl gyfarfodydd gyda'i chwaer Olwen a bob amser yn barod i gymeryd rhan. Yr ydym yn cydymdeimlo gyda'r merched a'u teuluoedd a hefyd gydag Olwen a'i theulu hithau.

Hefyd y mae Mrs Aelwyn Lloyd wedi cyfarfod â phrofedigaeth – mae Paula wedi colli modryb.

Llongyfarchiadau i Mrs Beti Jones ar ddod yn hen Nain i Loti.

**Dydd Gweddi'r Byd**

Eleni tro ni Eglwys Unedig Y Fron a'r Brwcws oedd trefnu gwasanaeth undebol prynhawn Gwener Mawrth 3ydd. Braf oedd gallu estyn croeso i chwiorydd Capel Mawr, Pendref a Lôn Swan atom a diolch iddynt am fod yn barod i gymeryd rhan yn y gwasanaeth oedd wedi ei baratoi eleni gan ferched o Taiwan ar y testun "Clywais am ei ffydd." Diolch i bawb am helpu gyda'r offer ychwanegol oedd ei angen ar gyfer y gwasanaeth. Yr oedd cyfle ar y diwedd i gymdeithasu dros baned a sgon oedd wedi ei baratoi gan Edith Jones a Beti Jones. Diolch hefyd i Iona Edwards am ei gwaith yn cyfeilio.

Bu gwasanaethau bore Sul Mawrth 12,19 a 26 dan ofal ein Gweinidog, Y Parch Andras Iago, oedd hefyd yn gweinyddu'r Cymun Sanctaidd ar y 26ain gyda Rhianwen Williams yn llywyddu a'r organyddion yn ystod y mis oedd Iona Edwards ac Eiri Jones.

## Aelwyd y Capel Mawr

Dechreuwyd cyfarfod mis Mawrth gyda Mair yn darllen cerdd R. Williams Parry i Gymry Gŵyl Ddewi. Croesawyd y siaradwraig wadd gan y llywydd Rhiannon Wynne. Mae Lilian Jones yn aelod yn y Capel, ac roedd wedi dod i siarad am ei rhan yn creu croglun o'r Mabinogion. Mae yn cael ei arddangos yn Llys Llywelyn yn San Ffagan.

Mae Llys Llywelyn wedi ei adeiladu yno o'r hyn ddarganfuwyd mewn cloddfa ger Niwbwrch yn Sir Fôn. Mae wedi ei seilio ar yr hyn oedd ar ôl o Lys Rhosyr.

Bu Cefin Burgess yn cynllunio'r croglun gyda phlant yr ardal ac roedd Lilian yn un o'r criw oedd yn creu'r darluniau mewn brodwaith dan arweiniad Cefin Burgess.

Roedd Lilian yn canolbwyntio ar y llun o Bendigeidfran yn bont i'r milwyr groesi Afon Llinon yn Iwerddon. "A fo ben, bid bont."

Diolchwyd i Lilian gan Rhiannon ac i Carys am baratoi paned.

**Mair Jones**

# Cymdeithas Caledfryn

Y siaradwr gwadd yng nghyfarfod mis Chwefror o'r gymdeithas oedd Clwyd Wynne, Dinbych a'i destun oedd 'Cymeriadau Stryd Henllan - y Da, y Drwg, yr Hyll'. Dywedodd bod Stryd Henllan yn un o'r strydoedd hynaf yn y dre' a'i bod i'w gweld ar fap John Speed o'r flwyddyn 1610. Roedd y stryd yn ffordd bwysig i mewn i'r dref o gyfeiriad y gorllewin a'i bod traean o filltir o hyd.

Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd arni dair tafarn sef yr Hand, Black Lion a'r Albion a bragdy ar fferm y Goppy. Yn ogystal roedd sawl siop a busnesau bach, dwy fferm a thros gant o dai. Cafodd llawer o'r tai eu dymchwel yn y 1950au fel rhan o bolisi Clirio Slymiau y Llywodraeth. Adeiladwyd yr ysgol(National School) yn 1848 ac roedd Capel Seion gyda dros 200 o aelodau ar ddechrau'r ugeinfed ganrif a 201 o blant ar gofrestr yr Ysgol Sul. Rhyfeddol! Roedd pedwar addoldy ar y stryd gan gynnwys St Andrews Mission a adeiladwyd yn 1908.

Roedd cynhyrchu esgidiau a menig yn ddiwydiant mawr yn y rhan yma o'r dref ac roedd dros 80 o gryddion yn byw ar Stryd Henllan. Roedd eu cynnyrch yn cael ei allforio ledled y byd. Erbyn dechrau'r ugeinfed ganrif roedd y diwydiant yma wedi dirywio a bu rhaid cau llawer o'r busnesau bach yma. Cafodd y dynion eu cyflogi yn y chwarel leol, argraffdai ac wrth gwrs yn y seilam newydd. Roedd cyflogau isel a gwahaniaeth mawr rhwng bywyd y cyfoethog a'r tlawd yn yr ardal, a thra bod y cyfoethog yn hela roedd y tlawd yn potsio er mwyn bwydo eu teuluoedd.

Roedd llawer o gamymddwyn yn deillio o'r gor-yfed ar y stryd ac ni chafodd y mudiad dirwest fawr o ddylanwad. Yn ystod y Rhyfel Mawr fe wnaeth Stryd Henllan gyfrannu a cholli mwy o ddynion nac unrhyw ran arall o'r dre'. Lladdwyd 35 o ddynion o'r stryd yn ystod y rhyfel a'r cyntaf i golli ei fywyd oedd William Conway Williams. Nid rhyfedd felly bod yna lawer o ddwrdio a rhegi gan drigolion y stryd wrth i garcharorion rhyfel Almaenig gael eu martsio i fyny ar eu ffordd i'r carchar rhyfel yn Nyffryn Aled, Llansannan. Yn ôl Clwyd roedd esiamplau o gamymddwyn ar y stryd ond roedd rhesymau am hyn fel tlodi, alcohol, tai gwael a gorlawn ac addysg wael. Ond roedd mwyafrif y trigolion yn bobl dda a gweithgar ac yn byw bywyd normal ac heddychlon ac am sicrhau bod Stryd Henllan yn le addas i fagu teulu.

Diolchwyd i Clwyd gan Alun, Llywydd y noson ac am roi cipolwg mor llawn a diddorol i'r aelodau o fywyd ar Stryd Henllan. Y cyfarfod nesaf fydd y Cinio Blynyddol ar ddiwedd Mawrth gyda'r siaradwraig wadd Yr Athro Elwern Evans K.C.

**Jac Roberts**



Clwyd ac Alun

## Y Gymdeithas Gymraeg



Ar Nos Wener, Mawrth 3ydd, cafwyd cyfarfod i ddathlu Gŵyl Dewi yn Festri Capel y Fron hefo cawl a myrang a phaned gyntaf ac yna sgwrs gan Karen Owen, Penygroes.
Yn wreiddiol, yr oeddem yn bwriadu cael swper yn y Clwb Golff ond, am amrywiol resymau, newidiwyd i'r Fron – yn arbennig yn dilyn cynnig caredig gan Gwawr ac Andrew Cordiner i ddarparu'r bwyd.
Croesawyd pawb gan yr is-lywydd Huw Vaughan Jones ac ef hefyd oedd yn cyflwyno Karen Owen ac yn diolch iddi hi, i Gwawr ac Andrew ac eraill a fu'n helpu, i Martha Cordiner (llywydd y tymor sydd bellach wedi dirwyn i ben), i Erfyl Williams fel trysorydd a Dilwyn Jones fel ysgrifennydd. Hefyd, diolchwyd yn arbennig i Gaynor Morgan Rees am gynnig llety dros nos i'r siaradwraig ac arbed taith hwyr iddi yn ôl i Benygroes gan nad yw Karen Owen yn gyrru car ar hyn o bryd oherwydd aros llawdriniaeth am gataract.

**Dilwyn Jones**

## Diolch

Dymuna Haydn, Aeron, Rhodri, Ffion, Leah, Gwenfyl a'u teuluoedd ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli gwraig, mam, nain a chwaer annwyl iawn, sef Menna Williams. Diolch am yr holl gardiau, ymweliadau a galwadau ffôn. Diolch i'r Parch. Andras Iago a'r Parch. Graham Floyd am eu gwasanaeth hyfryd a theimladwy a hefyd i Deiniol Roberts am y trefniadau trylwyr. Casglwyd dros £1,350 tuag at Hosbis St. Kentigern yn ystod yr angladd, gyda diolch o galon i bawb a gyfrannodd.


# HUW VAUGHAN JONES
## Arlunydd, Cartwnydd

Dewis da o luniau du a gwyn a lliw ar gael am bris rhesymol. Adeiladau, anifeiliaid, tractorau, ceir, blodau, coed a.y.b. Neu beth am lun arbennig o'ch dewis chi ar gyfer achlysur arbennig. Lluniau o bob maint


Cysylltwch â Huw ar
**01745 812184**


## Dathlu Santes Dwynwen a Burns Ionawr 25ain.

Tua pedair blynedd yn ôl fe drefnodd fy chwaer Mair a fi gyda help nifer o ffrindiau Noson yn y Guild Hall i ddathlu Diwrnod Santes Dwynwen a Burns.
Eleni mi benderfynes drefnu dathliad i godi arian at ddau achos teilwng iawn sef Hadau Gobaith, Cymorth Cristnogol a Cynnig. Mae Cynnig yn rhoi cyfleoedd i bobl o bob oed efo anghenion ychwanegol i fynd ar dripiau, ar gyrsiau celf a chrefft, coginio a.y.b.
Cynhaliwyd Te Pnawn yn festri Capel Mawr pnawn Mercher 25ain o Ionawr am 2 o'r gloch.
Roedd y festri yn orlawn o bobl o Cynnig, dysgwyr a Chymry Cymraeg yn sgwrsio a mwynhau paned, brechdanau amrywiol a danteithion melys.
Diolch o galon i fy nghriw o ffrindiau a fu'n gweithio mor galed i wneud y pnawn yn hynod o lwyddiannus.
Diolch arbennig i Glwb Rotari Dinbych a'r Buffalos am ein noddi ac i Bara Henllan, Daniel Morris a J.H. Jones ac i nifer o ffrindiau am gyfrannu at y bwyd.
Llwyddwyd i godi dros £500 at Hadau Gobaith a £400 i Cynnig.

**Nerys Ann Roberts**

**Aeth yr uchod ar goll rhywle yn swyddfa'r Bigwn. Ymddiheuriadau i Nerys Ann (gol.).**



# Oergell Gymunedol Dinbych




Dyma ni, ychydig dros dri mis ers cychwyn yr Oergell Gymunedol yn Eirianfa.
Mae'r Oergell wedi newid amser erbyn hyn, a rŵan yn rhedeg o 9.30 y bore tan 11.30, dydd Llun a dydd Iau.
Casglwn y bwyd sydd dros ben o'r archfarchnadoedd lleol yn y dre o hyd ac mae hyn yn gweithio'n dda ac yn arbed y bwydydd rhag mynd i dirlenwi. Felly mae'r amgylchedd hefyd yn elwa.
Mae Llaeth y Llan yn garedig yn rhoi cyflenwad o iogwrt yn gyson, fe gawn gyfraniadau o fwyd ac arian gan y cyhoedd a defnyddiwn swm o arian gan y Cyngor Sir i brynu bwydydd sydd yn brin fel llysiau ac wyau gan ddefnyddio cynhyrchwyr lleol fel Fferm Clyttir a Vale Grocer.
Hyd at heddiw rydyn ni wedi dosbarthu 1,162kg o fwyd i deuluoedd lleol.
Erbyn hyn mae na tua 30 o fobol yn dod i ymweld â ni bob tro, felly tua 60 o deuluoedd sydd yn cael cefnogaeth bob wythnos.
Cawsom gyfarfod ar Fawrth 6ed fel Grŵp Bwyd Cymunedol.
Rydyn ni wedi bod yn ffodus iawn, ac wedi cael darn o dir i dyfu llysiau fel grŵp gan y Cyngor Sir. Fydd hyn yn digwydd tu ôl i Morrisons . Fe fydd y bwydydd yma yn mynd i grwpiau a phobol leol.
Be sy'n braf hefo'r fenter yma ydi cyfarfod pobol sydd yn trio gwella yr amgylchedd a hefyd yn awyddus i helpu pobol leol gyda'r argyfwng bwyd ac ynni.
Mae ein gwirfoddolwyr yn arbennig, ac yn barod bob amser i wario'r amser i ddatblygu'r prosiect yma.
Os ydych ac awydd i wirfoddoli gyda ni, dewch i Eirianfa i gael sgwrs yn ystod amser yr Oergell Gymunedol.

**Hywel ac Eiddwen Watcyn**



Bob.M.Jones,Glenys Williams, Marian Roberts,Ann Pritchard a Heulwen Caldecott ar stondin Urdd Cyfeillion Ysbyty Glan Clwyd

Gwelliannau Cartref DBP G.Cymru

DBP

DBP Limited / Denbigh Building Plastics Limited
Tŷ DBP, Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych, LL16 5TA
Ffôn : 01745 818849

Dewch am baned ac i weld yr ystafelloedd arddangos newydd, modern a chyfoes.

Diolch i'n cwsmeriaid am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd ac edrychwn ymlaen at gyfarfod cwsmeriaid hen a newydd.

Ffenestri UPVC ac Alwminiwm, Ffenestri Sash,
Drysau Alwminiwm Cyfansawdd, Drysau Plygu Dwyffordd Alwminiwm,
Ystafelloedd Gwydr, Toeau Cawell, Portshys, Cynnyrch Roofline,
Systemau Bargod Sych, Toeau Firestone a Guardian.


# Clwb Ffilmiau Dinbych

Cychwynnwyd y Clwb Ffilmiau ym Mis Awst 2006, gan griw bach ohonom oedd yn meddwl y buasai'n syniad da cael modd i ddangos ffilmiau yn Ninbych. Ar ôl ffurfio pwyllgor bychan, fe fu 3 mis o waith caled iawn yn enwedig gan Vesi Jones, i drefnu logisteg y fenter.
Dangoswyd y ffilm gyntaf "Monsieur Hulot's Holiday" ym Mis Rhagfyr 2006 yn Theatr Twm o'r Nant a rhaglen o ffilmiau i ddilyn ar gyfer y flwyddyn 2007.
Roedd rhaid benthyg yr offer [taflunydd a sgrin etc.] gan Gyngor Sir Ddinbych i ddangos y ffilmiau hyd nes i ni gasglu £9000 i brynu offer ein hunain. Am rai misoedd roedd un ohonom yn mynd lawr i'r Rhyl ar bnawn Dydd Gwener i nôl yr offer a mynd â fo yn ôl bore Llun.
Ar y dechrau roedd rhaid llogi'r ffilmiau gan y Film Bank nes i ni gael arian i brynu DVD's, neu fenthyg gan ffrindiau.
Rhaid i mi sôn fan hyn am John Eaves (un o'r criw gwreiddiol). Fo oedd yn gyfrifol am yr ochr dechnegol am flynyddoedd. Roedd yn rhoi ffilmiau byr cyn y brif ffilm, yn union fel yn y sinemau! Cawsom sioeau gwisgo fyny ac yn y blaen a chael gymaint o hwyl.
Roedd y blynyddoedd cynnar yn brysur iawn - mynd allan hefo offer cludadwy i ddangos ffilmiau yn y cymunedau e.e. Nantglyn, Groes, Gwyddelwern, Llandyrnog ac ambell i le arall.
Trefnwyd Gŵyl Ffilmiau un penwythnos efo cyfeillion pwysig o fyd y ffilmiau yn dod i fyny i Ddinbych.
Ar benwythnos arall dangoswyd holl ffilmiau Star Wars a ni fel criw yn gwisgo fyny fel y cymeriadau!!
Yn ddiweddarach bu Dr Tim Webb yn gyfrifol am drefnu cystadleuaeth i blant a phobl ifanc ysgolion a cholegau i wneud ffilm fer. Cawsom noson ddifyr yn gweld ffrwyth eu gwaith a gwobrwyo'r goreuon.
Yn ogystal â rhaglen y tymor, mae'r sioe "Vintage" unwaith y mis ar bnawn Mercher wedi bod yn mynd yn ei flaen ers blynyddoedd bellach a'r mynediad yn rhad ac am ddim! Roeddwn yn gweld bod y gwasanaeth yma yn bwysig a phobl ar ben eu hunain ac mewn oedran yn cael cyfle i gymdeithasu. Daeth y Covid â rhoi terfyn ar bopeth wrth gwrs ond mae pawb wedi dychwelyd erbyn hyn ac mae mwy a mwy yn mynychu y sioeau.
Roeddwn yn edrych faint o aelodau oedd gennym yn y flwyddyn gynta - dros 140!! Gormod o lawer i'r theatr ond roedd llawer yn fodlon rhoi arian i'r fenter er mwyn sicrhau fod y Clwb Ffilmiau yn llwyddiant!! Ers hynny mae'r aelodaeth wedi bod tua 70 ar hyd y blynyddoedd sydd yn wych, a tua 60 i 70 yn dod i bob ffilm (arwahan i un neu ddau blockbuster)




Ers i ni ail ddechrau ar ôl y Covid mae y nifer wedi codi i dros gant ac fel mae rhai ohonoch yn gwybod roedd y theatr ar gyfer y ffilm ddwetha, sef "Mrs Harris Goes to Paris" yn orlawn a bu rhaid i rai o'n haelodau ac eraill fynd adre. Ail ddangoswyd y ffilm ym Mis Mawrth .
Mae'r pwyllgor wedi penderfynu cyfyngu'r aelodaeth i 70 er mwyn rhoi cyfle i rai sydd eisio dod yn achlysurol. Dim ond yr aelodau sydd yn gallu bwcio ar hyn o bryd, gan obeithio y bydd hyn yn gweithio!.
Roedd y gynulleidfa yn hŷn yn y blynyddoedd cynnar ond ers Covid mae llawer mwy o amrywiaeth mewn oed sydd yn foddhad i ni. Hefyd mae amryw bellach yn dod o'r trefi a'r fro gyfagos. Hwyrach mai y gwin rhad sydd yn denu!!
Yn ystod Mis Medi unwaith eto, trefnir wythnos gyfan o ffilmiau i blant ysgolion y dref a'r fro. Mae hyn yn boblogaidd iawn bob blwyddyn.
Beth am ddyfodol Clwb Ffilmiau Dinbych!!!!
Dyfodol disglair os cawn wirfoddolwyr ieuengach i adeiladu ar lwyddiant y Clwb.

**Lilian Jones**

Glyn Evans Autoclinic Ltd
Atgyweirio ceir ~ Accident repairs

Colomendy Industrial Estate, Dinbych LL16 5TA
Tel : (01745) 815141 repairs@evansautoclinic.com

**Cynghorwyr Sir Ddinbych**
**Eich Cynghorwyr Plaid Cymru**

Rhys Thomas - Dinbych Isaf
Delyth Jones - Dinbych Caledfryn a Henllan
Elfed Williams - Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch

Mae ein manylion cyswllt i gyd ar safle
wê y Cyngor Sir

# Holi a Stilio yng Nghwmni Sam Jones



Sam a Nia

**1. Sonia ychydig am dy gefndir/dy fagwrfa?**
Hogyn o Colomendy, Dinbych ydw i. Cyn ddisgybl o Ysgol Twm o'r Nant, Ysgol Uwchradd Glan Clwyd ac Ysgol Uwchradd Dinbych (dim llawer sydd di neud y tri!). Ro'n i'n gweithio tu ôl i'r bar yn y King's Head, Llanrhaeadr am tua 8 mlynedd i neud bach o bres sbar ar ben gweithio yn yr Uned Gansr. Yr hynaf o dri phlentyn i Glain a Peter Jones. Rydw i'n briod i Nia ac yn Dad i Elen Wyn sy'n bedair blwydd oed.

**2. Be ydi dy atgof cyntaf?**
Cal cinio Dydd Sul yn tŷ Taid a Nain dwi'n meddwl. Ddim yn siwr iawn be oedd fy oed i, ond allai gofio'r hogle coginio a'r teulu yn iste yn witshiad i Nain Foxhall ddeud bod cinio'n barod.

**3. Ti'n brysur iawn gyda Chlwb Rygbi Dinbych. Sonia mwy am dy ddiddordeb mewn rygbi.**
I fod yn onest roeddwn i'n casau chwarae rygbi tra yn yr ysgol, gêm rhy eger a lot gormod o fwd i neud fi fod isho chwarae yn amal! Ond yn mwynhau mynd hefo Nhad i wylio mrawd yn chwarae i Glwb Rygbi Dinbych (CRD). Ar ôl i Dad farw nes i benderfynu cario mlaen hefo mynd i gemau a tua 2012/13 syrthio mewn i rôl Rheolwr y Tîm 1af. A'r gweddill yn hanes!

**4. Pa dri lle sy'n bwysig ichdi?**
Tref Dinbych - mae'n le unigryw iawn, llawn o bobol glên a hanes ar bob cornel - faswn i ddim isho byw le'm byd arall.
Clwb Rygbi Dinbych - mwy allan o arferiad na dewis erbyn hyn. Di cal amseroedd da iawn yn y Clwb a di dod i nabod pobol na faswn i w'rach wedi cael y siawns i gyfarfod heblaw am CRD.
Ysbyty Gogledd Cymru - Dwi'n gwbod - random iawn. Roedd Dad, Mam, Taid, hanner brawd a mwy nag un ewythr wedi gweithio yn y 'Mental' dros y blynyddoedd. Roeddwn i wrth fy modd yn gwrando ar Dad, Yncl Noel a'i ffrindiau yn hel clecs am yr Ysbyty ac yn gallu gweld gymaint ddaru'r lle neud argraff arnyn nhw dros eu gyrfaoedd. Ateb rhyfedd i rai, ond rydw i'n falch iawn o gael cyswllt hefo'r hen adeilad ar gyrion y dre.

**5. Be sy wedi achosi'r embaras mwyaf ichdi?**
Hwn oedd y cwestiwn hawsaf - Gogglebocs. Na'i sôn ddim mwy amdano.

**6. Beth sy'n mynd o dan dy groen?**
Ciwio, dwi'n colli mynedd reit sydyn tra'n aros am pethe.

**7. Sut fyddi di'n treulio dy oriau hamdden?**
Os ddim yn gneud rhywbeth efo'r Clwb Rygbi dwi'n hoffi darllen, gwrando ar gerddoriaeth, dilyn Man United ar y teledu, cyfarfod ffrindiau am beint ne ddau yn y Masons. A dros y 4 mlynedd dwetha ma, rhedeg ar ôl Elen (y ferch) i neud yn siwr ei bod hi'n saff a pheidio cael helynt efo Nia (y wraig).

**8. Oes llyfr wrth erchwyn y gwely ar hyn o bryd?**
Ar hyn o bryd dwi ar ganol llyfr o'r enw 'Devil Dogs' gan Saul David, hanes Cwmni o US Marines yn ystod y rhyfel yn y Pacific. Allai weld Nia yn rolio'i llygaid wrth ddarllen y darn yma!

**9. Pa fath o raglenni teledu/radio neu bodlediad sy'n rhoi pleser ichdi?**
Yn ddiweddar dwi wedi cychwyn gwrando ar Bodlediadau, 'We have ways of making you talk' a 'For you the war is over' yn ddau wych ar bwnc yr Ail Ryfel Byd tra bod Podlediad 'Gogpod' yn delio â Rygbi yn rhanbarth y Gogledd. Heblaw am gemau Rygbi/Pêl-Droed ar y teledu, dwi ddim yn gwylio llawer ar y bocs i ddeud y gwir.

**10. Oes na wyliau sy'n sefyll allan?**
Yn 2008 es i ar drip i Normandy, Ffrainc hefo Dad a rhai o'i ffrindiau gwaith o'r 'Mental'. Roedd cael mynd hefo Dad i weld y traethau a meysydd brwydrau ro'n i wedi darllen gymaint amdano fel plentyn, a rhannu'r profiad hefo Dad yn sbeshial iawn. Mwy fyth darganfod bod Dad yn sal yn fuan iawn ar ôl dod nôl o Ffrainc.

**11. Mae gen ti ddiddordeb yn yr Ail Ryfel Byd. Sonia fwy**
Dwi'n swnio fel Uncle Albert! During the war! Haha! Ges i'm llawer o ddewis hefo magu diddordeb yn yr Ail Ryfel Byd tra'n iau. Roedd Dad yn 'obsessed' efo'r pwnc, yn enwedig Awyrennau. O ddarganfod lle roedden nhw di crashio yng Ngogledd Cymru (ac yn bellach), i le cafodd y criw eu claddu, neu pa gofgolofn oedd eu henwau nhw arnyn nhw a.y.y.b. Wrth imi edrych mlaen (o ryw fath) i droi'n 40 haf ma, mae'r elfen antur o'r straeon rhyfel yn dal i ddiddanu, ac dwi'n troi'n hogyn 8 oed os nai glywed Spitfire yn rhuo drosodd neu ddod ar draws tanc enfawr mewn amgueddfa.

**12. Sonia dipin am dy waith bob dydd.**
Dwi wedi bod yn Weithiwr Cymorth Gofal Iechyd ar Ward Enfys yng Nghanolfan Trin Canser Gogledd Cymru am 20 mlynedd leni ma, gwaith gwobrwyol iawn hefo tîm anhygoel ar Ward Enfys.

**13. Oes gen ti gynlluniau ar gyfer 2023?**
Gofynnwch i Nia neu Mam ac mi na nhw gadarnhau fod cynllunio o flaen llaw ddim yn un o fy nghryfderau. Trio cadw'r bil Trydan a Nwy fynd trwy'r tô - di hwnne'n cyfri?

**14. Pa gyngor fuaset yn ei roi i Brif Weinidog?**
Rhoi diwedd i falu awyr a cychwyn trin etholwyr y wlad hefo bach o barch.

**15. Ti'n hogyn o Ddinbych. Sut fuaset yn gwella'r dref?**
Dwi ddim yn un am fynd ar feic, fel y gallwch chi weld, ond dwi'n meddwl base llwybyr beic sydd yn rhedeg lawr y dyffryn a trwy'r dref yn beth gwych i'r gymuned. Baswn wrth fy modd yn gweld sinema yn ail agor yn y dre hefyd.

# Cymdeithas Hanes Brynmawr




Annwyl gyfeillion

Mae'r Bigwn yn trafeilio i bedwar ban y byd rwy'n siwr ond mae un yn dod yma i Frynmawr lle rwyf wedi byw ers dros hanner can mlynedd. Cefais fy magu ym Mheniel ac mae'r ardal o gwmpas Dinbych yn dal yn agos i fy nghalon.

Braf oedd gweld a darllen erthygl Berwyn yn Y Bigwn (Chwefror 2023) am gadair Eisteddfod Caerdydd (1938) a enillwyd gan Gwilym R. Jones, cadair sydd nawr ym meddiant y teulu. Cafodd y gadair ei gwneud yn ffactri Gwalia yma ym Mrynmawr, ffactri oedd yn enwog dros y byd am ddodrefni pren. Mae rhai o'r dodrefni'n dod ar werth nawr ac yn y man ac maent yn codi pris uchel iawn oherwydd bod safon y gwaith mor dda. Mae'n bosibl fod cadair Gwilym R. (cadair unigol wrth gwrs) yn un o'r rhai olaf a greuwyd yn y ffactri, oherwydd yn anffodus erbyn 1939 roedd y ffactri wedi cau.

Cewch fwy o wybodaeth am Ffactri Gwalia yma: https://www.brynmawrmuseum.org.uk/brynmawrfurniture?lang=en

Yn ei erthygl nododd Berwyn mai syniad gan y Crynwyr oedd cychwyn y ffactri, dim ond un mewn nifer o syniadau i godi safon y bobl oherwydd diweithdra y 1920au a oedd o gwmpas 90% yn y dref. (Pan ddaeth Edward VIII drwy'r dyffrynnoedd ar daith, dywedodd fod rhaid gwneud rhywbeth a diolch i'r Crynwyr dyna gychwyn beth a alwyd y Brynmawr Experiment). Un arall o'r cynlluniau oedd creu pwll nofio, y dynion yn gweithio yn rhad ac am ddim i durio'r pwll ond yn cael cinio poeth a phaced bach o sigarets. Roedd y merched hefyd yn gwneud eu rhan, ond araf iawn oedd y gwaith yn symud ymlaen. Ar ôl dwy flynedd, daeth criw o fyfyrwyr o bedwar ban y byd i roddi cymorth a dyma'r tro cyntaf i'r sefydliad V.S.O. gychwyn. Dydw i ddim am ddweud mwy am y pwll nofio, ewch i wefan Cymdeithas Hanes Brynmawr: www.brynmawrhistoricalsociety.org.uk ac yno cewch y stori gyda lluniau i ddangos maint y gwaith. Ar y rhestr cliciwch ar "Galleries" ewch lawr a chlicio ar "Documents", yna sgroliwch i lawr at "Brynmawr swimming baths."



Mae'n werth nodi nad yw Brynmawr yn dref hen o gwbl, efallai llai na 200 mlwydd oed ond mae wedi bod yn bwysig iawn yn y gorffennol. Dyma lle cychwynnodd y Teirw Scotch, terfysgwyr oedd yn rheoli'r "Parth Du"; yma 'roedd Crawshay Bailey (enwog iawn mewn cân oedd yn boblogaidd gyda chlybiau rygbi) yn byw ar gyrion y dref. Fe oedd perchennog nodedig gwaith haearn Nant y Glo, efallai ar y pryd y gwaith haearn pwysicaf yn y byd. Un arall nodedig oedd Joseph Bolitho Johns a gafodd ei arestio am ddwyn bara a chig o ffermdy yng Ngilwern (pentref cyfagos) ac ar ôl bod o flaen ei well, cafodd ei anfon i Awstralia. Yno, daeth yn enwog iawn fel herwr (outlaw) o dan yr enw Moondyne Joe.

**Eifion Lloyd Davies (Eifion Tŷ Capel i nifer)**

(Cyn Faer Brynmawr ac Ysgrifennydd Cymdeithas Hanes Brynmawr)



# Eisteddfod Gadeiriol Nantglyn 1911



William Storey Davies a Mary Ellen Davies

Mae Cadair Eisteddfod Nantglyn 1911 ym meddiant Bobbi Howatson a chyn hynny roedd yng nghartref ei dad, John Howatson, Bryn Hyfryd. Mae'r teulu wedi etifeddu'r gadair hardd hon gan mai William Storey Davies, hen daid John (ar ochor ei fam, Eurwen), enillodd y gadair am arwain y côr buddugol yn yr eisteddfod hon pan oedd yn 53 oed ac yn byw yn Glyn House, Nantglyn. Ei wraig oedd Mary Ellen Davies, un o 12 o blant.

Ni wyddom lawer am yr eisteddfod hon yn 1911. Ond cyfeiria Eric Griffiths at eisteddfodau yn Nantglyn yn ei lyfr 'Nantglyn'(1984), "Am sawl blwyddyn ar ôl yr Ail Ryfel Byd, cynhaliwyd Eisteddfod lwyddiannus iawn mewn pabell ar Gae Wern, Glasmor. Dilynodd hyn fenter llawer llai uchelgeisiol a gynhaliwyd am sawl blwyddyn ar Noson Nadolig yng Nghapel y Waen, yn ogystal a digwyddiad mwy




mawreddog a gynhelid o dro i dro yn Ysgubor Hendre neu mewn pabell ar Gae Waen. Goroesiadau oedd y digwyddiadau hyn, a siarad yn gyffredinol, o weithgareddau cymdeithasol cynharach, a leolid yn fwyaf arbennig o amgylch y Capel a'r Plas."
Cawsom wybod gan Berwyn Jones o Nantglyn fod cadair Eisteddfod Nantglyn 1922 yn Eglwys y Plwyf ym Mhrestatyn ond does dim mwy o wybodaeth amdani.
Hefyd mewn rhifyn o Baner ac Amserau Cymru (1903 neu 1904) daethpwyd ar draws, dan y pennawd Beirniadaethau, feirniadaeth ar y Traethawd ('Esaiah fel Gwleidydd') yn Eisteddfod Gadeiriol Nantglyn, Nadolig 1903. Iorwerth oedd ffugenw enillydd y gystadleuaeth.
Mae John Howatson yn cofio mynd yn blentyn i eisteddfod yn Nantglyn a gynhaliwyd mewn pabell ond ble cynhaliwyd Eisteddfod Gadeiriol Nantglyn 1911? Capel y Waun, efallai? Be arall a wyddom amdani?
Mwy o waith ditectif!!

**Diolch i John Howatson am ei ddiddordeb a'i waith ymchwil (gol.).**

## Cadair Nadolig Sarn 1933

Mae cadair Eisteddfod Nadolig Sarn 1933 yng nghyntedd Capel Gorffwys trefnwyr angladd Ifor Howatson a'i Fab, ar Ffordd Rhuthun wrth Plas Pigot.
Digwydd edrych drwy ffenest drws y swyddfa/cyntedd nes i a rhyfeddu o weld cadair fawr, bren gyda'r geiriau hyn arni,"**Eisteddfod Nadolig Sarn 1933.**" Be am ei hanes?

Cysylltu â Brian Howatson – Brian oedd wedi cynnig am y gadair hon mewn ocsiwn addewidion a drefnwyd ar ran Capel y Fron ym Melin Brwcws yn 2018.
Dr. Chris Madoc- Jones oedd wedi achub y gadair o'r hen Glwb Llafur yn Neuadd Panton pan oedd Jim Matthews yn taflu pethau allan wrth i'r clwb ddod i ben. Onibai am Chris mi fuasai'r gadair wedi mynd i'r sgip!!

**Diolch i Brian Howatson, John Geraint a Margaret Madoc-Jones am eu help (gol.)**



# Cefnogaeth hael i gôr newydd



Mae côr newydd yn Nyffryn Clwyd wedi ei syfrdanu gan haelioni elusen gerddoriaeth leol, wedi iddynt gynnig cefnogaeth iddynt trwy fuddsoddi mewn piano newydd lai na 24 awr wedi eu hapêl.

Cysylltodd Cerdd Cydweithredol Sir Ddinbych â Chôr Nantclwyd yn dilyn eu hapêl 'Go Fund Me' ar-lein i gasglu arian i brynu piano newydd ar eu cyfer

"Fe wnaethon ni drafod y mater yn ein hymarfer côr nos Lun" eglurodd **Angharad Rees,** ysgrifenyddes y côr. "Sefydlwyd y côr fis Hydref llynedd, ac rydym wedi bod yn ymarfer yn Neuadd Llandyrnog gan fod y neuadd yn fawr a'r ymateb wedi bod yn anhygoel. Mae gennym o gwmpas 100 o aelodau yn dod bob nos Lun.

"Bydd un o'n perfformiadau cyntaf yng Ngŵyl Rhuthun ym mis Gorffennaf, a chan mai digwyddiad yn yr awyr agored fydd hwn, byddwn angen cario piano yno. Aethon ni ati i lansio tudalen ar y we ar y nos Lun ac erbyn y diwrnod canlynol roedd Cerdd Cydweithredol Sir Ddinbych wedi cysylltu â ni gan gynnig eu cefnogaeth!"

Yn ôl **Alaw Llwyd Owen**, arweinyddes Côr NantClwyd: "Mi gawson ni dipyn o sioc clywed am haelioni'r elusen. Mi wnaiff cymaint o wahaniaeth i'n cyfeilyddes, Dawn Wilkes, i allu defnyddio ein piano ein hunain a fydd yn hwylus i'w gario o gwmpas lle bynnag byddwn ni'n perfformio. Rydyn ni'n hynod ddiolchgar iddynt am eu caredigrwydd.

"Mae'r côr cymysg wedi ei anelu at unigolion dros 30 oed ac rydyn ni'n annog unrhyw un sy'n mwynhau canu, i ymuno efo ni. Yn bendant, mae'r pwyslais ar ddod at ein gilydd i gymdeithasu a mwynhau buddion iechyd a lles sydd ynghlwm â chanu. Dwi'n falch iawn o'r gefnogaeth gan yr aelodau a'r pwyllgor."

Yn ôl **Heather Powell**, Pennaeth Gwasanaeth Cerdd Cydweithredol Sir Ddinbych: "Rydyn ni'n ymhyfrydu yn y ffaith ein bod yn gallu cefnogi Côr NantClwyd trwy brynu piano trydanol fel rhodd iddynt.

"Fel gwasanaeth cerdd ysgolion yn Sir Ddinbych, rydym bob amser yn ceisio gweithio mewn partneriaeth gyda grwpiau cerddorol cymunedol i warchod dyfodol cerddoriaeth o fewn y sir.

"Fel gwasanaeth rydyn ni wastad yn ymwybodol o'r effaith bositif mae canu yn ei gael ar iechyd meddwl a lles. Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi bod trwy gymaint gyda'r pandemig Covid19 ac mae corau wedi dioddef o'i achos. Mae'n gyffrous, felly, i ni weld côr newydd lleol yn sefydlu ac rydym yn mawr obeithio y bydd y piano yn ddefnyddiol dros y blynyddoedd nesaf.

"Mae gan y côr nifer fawr o aelodau; rhai yn athrawon sy'n gweithio gyda ni, rhieni rhai o'n disgyblion, a ffrindiau i Gerdd Cydweithredol Sir Ddinbych. Rydym yn edrych ymlaen at rannu llwyfan efo'r côr yn y dyfodol ac i ysbrydoli ein disgyblion ymhellach am werth cerddoriaeth a'r mwynhad o gyd-ganu.

"Hoffem gymryd y cyfle i ddymuno pob llwyddiant i'r côr yn y dyfodol ac edrychwn ymlaen at eu clywed yn perfformio!"

Os oes gan unrhyw un ddiddordeb mewn ymuno â'r côr, cysylltwch ag Angharad Rees ar 07859 880505 neu anfon ebost at: cornantclwyd@outlook.com









# Ble Maen Nhw Rŵan?

Cefais y ngeni yn Rhuthun ond symud i Ddinbych pan oeddwn yn 6 oed a mynychu Ysgol Twm o'r Nant cyn symud i Ysgol Glan Clwyd. Wedyn i'r "tech" yn Wrecsam ac ymlaen i Birmingham lle enillais radd mewn Pensaernïaeth.

Tra yn y coleg fe dreuliais wyliau'r Haf hefo Alun Jones yn Wynn Rogers & Co. ac ar ôl tair blynedd yn y coleg fe dreuliais 'flwyddyn allan' hefo y diweddar Glyn Davies yn Parry Davies Assoc., cyn mynd yn ôl i'r coleg am ddwy flynedd arall. Fe ddysgais lawer iawn oddiwrth y ddau.

Tra yn gwarchod ein gwaith yn yr 'open day' yn y coleg, pan oedd cyflogwyr yn dod i weld gwaith pawb, fe gefais gynnig swydd gyda chwmni yn Wolverhampton a chychwyn yn y fan honno yn 1989 ar estyniad i Molineux sef cae pêl-droed Wolves.

Wedi chwe blynedd yna fe gefais alwad ffôn yn gofyn a fuasai gennyf ddiddordeb mewn swydd fel 'Associate Architect' gyda chwmni ym Manceinion sef Atherden Fuller Leng neu AFL fel ydym yn awr. AFL oedd yn gyfrifol am 'Old Trafford.' Derbyn y swydd a symud i fyw i Bramhall a gweithio ar ambell gae pêl-droed, rygbi a chriced yn Lloegr.


Fe gefais fy ngwneud yn 'Director' ar ôl i Bob Fuller ymddeol ac wedi cymeryd cyfrifoldeb am yr adran 'Sport Division' ers hynny.

Rwyf wedi bod yn gyfrifol am lawer o brosiectau sef stadiymau rygbi a
phêl-droed - Stadiwm Reading a Blackburn, Stadiwm Peter Mokaba yn Polokwane, De Affrica (Cwpan y Byd yn 2010), Hull Arena, Ashgabat Olympics yn Turkmenistan, Stadiwm Brentford a Stadiwm Lusail yn Qatar (Cwpan y Byd 2022), Bae Copr Abertawe a hefyd cae ymarfer Chelsea, Stoke City, ac estyniadau i lawer o glybiau eraill fel Munster Rygbi, Leicester Tigers ac eraill na fedraf son amdanynt. Hefyd wedi cynghori FIFA ac UEFA ar wahanol stadiymau yn Rwsia, Twrci, Tsiena a Sbaen ac yn nes adref hefyd!

Ar hyn o bryd mae un o'n prosiectau yn Wrecsam gyda'i chysylltiadau! Am fwy o waith ein cwmni, ewch i AFL ARCHITECTS STADIUMS.

Pwy sydd yn cysylltu 'rhain oll? John Meredydd Roberts, neu John Mered fel y'i gelwid yn Ysgol Glan Clwyd gan fod dau John Roberts yn yr un dosbarth! Mae ei rieni, Den ac Eleanor yn dal i fyw yn Ninbych a David ei frawd a'i deulu yn Nhremeirchion.

**Diolch i Dennis ac Eleanor Roberts, rhieni John Meredydd Roberts am hanes John. (gol.)**



Stadiwm Lusail, Qatar

# Gŵyl y Banc

Fe ofynnodd y golygydd y tro yma i mi 'sgwennu am bwnc penodol dros ben: Gwyliau Banc. Yn anffodus, dwi ddim yn gwybod llawer amdanynt!

Fel llawer un arall sy'n rhedeg eu busnes ymgynghori eu hunain, dydi hi ddim yn hawdd cymryd gwyliau heb daro golwg ar yr ebyst neu geisio gorffen adroddiad sydd rhaid ei drosglwyddo o fewn dyddiad arbennig. I wneud pethau'n anoddach fyth, mae fy ngwaith yn golygu fy mod yn teithio'n aml dros y byd.

Gan fod Gŵyl y Banc mewn un wlad yn ddiwrnod o waith yn un arall, mae hi'n amhosib dal i fyny gyda'r cyfan. Yn ddieithriad felly, dwi'n cael fy hun yn gorfod gweithio yn y gwesty ar gader galed wrth ddesg fach – y cyfan oherwydd bod y swyddfa ar gau a'r staff ar eu gwyliau. Mae hyn yn gallu amharu'n fawr ar fy ngwaith, yn enwedig pan bod yr amser ar gael yn fyr.

Cymerwch fy nhaith i Malawi ym mis Hydref diwethaf. Yn anymwybodol i fi, roedd y 17eg yn Ŵyl y Mamau. Dim byd o'i le yn hynny medde chi, ond mae colli un rhan o dair o'r amser ar gael i gasglu'r wybodaeth angenrheidiol yn dipyn o ergyd. Fe ellwch ddychmygu'r problemau rwyf yn ei gael yn India, lle mae ganddynt dros ugain diwrnod o wyliau banc.

A dyma fi'n dod at ail ddymuniad y golygydd: cymharu'r Gwyliau Banc mewn gwlad Babyddol fel Yr Eidal gyda'r rhai yng Nghymru. Wrth gwrs, y bwriad oedd dangos cymaint mwy hael ydynt, ac i fod yn onest mae'r rhifau i weld yn cadarnhau hynny. Ond dyw pethau ddim mor syml. Yn wahanol i Brydain, mae'r Gwyliau Banc yn cael eu dathlu ar y dyddiad penodol yn yr Eidal hyd yn oed pan mae hynny'n disgyn ar benwythnos

Felly o'r unarddeg diwrnod cenedlaethol Eidaleg ar gael y llynedd, dim ond wyth oedd yn disgyn yn ystod yr wythnos, sy'n golygu fod yr Eidalwyr wedi cael yr un faint o Wyliau Banc â'r Cymry.

Hwyrach, yn hytrach na gofyn am fwy o Wyliau Banc, y dylent gael eu dileu yn gyfan gwbwl? Dwi ddim yn meddwl y bydd llawer yn cytuno â fi am hynny, ond o leiaf mae'n debyg i berswadio'r golygydd i adael i mi ddewis pwnc y tro nesaf dwi'n fwy cyfarwydd â fo!

**Dewi Rogers**



Dewi yn Malawai

# Ysgol Glan Clwyd



Taith Theatr Blwyddyn 8

Aeth disgyblion Blwyddyn 8 ar daith i Venue Cymru i weld 'Demon Dentist', addasiad llwyfan o lyfr o'r un teitl gan David Walliams. Roedd y disgyblion wedi mwynhau yn arw, a theimlad braf iawn oedd gweld y theatr yn orlawn, a'r cyfan yn brofiad theatrig gwych.



**Gweithdy creu rhaglen radio**

Daeth MarciG, cyflwynydd Radio Cymru, at flwyddyn 7 i gynnal gweithdy diwrnod ar greu rhaglen radio. Cafodd y rhaglen ei darlledu ar CymruFM a hyfryd oedd clywed lleisiau disgyblion yr ysgol yn arwain ac yn cynnal y rhaglen gyfan.



**Gwaith Maes Daearyddiaeth**

Cafodd y disgyblion sy'n astudio Daearyddiaeth brofiad o waith maes yn Lerpwl a Thalacre. Astudiwyd y twyni tywod yn Nhalacre gan fesur sut mae'r ongl, cyflymder y gwynt a'r llysdyfiant yn newid wrth deithio ymhellach o'r môr. Yn Lerpwl astudiwyd patrymau adwerthu ac adfywiad trefol yn ardaloedd Prifysgol Lerpwl, Chinatown, Liverpool One a'r dociau. Cafwyd llawer o hwyl wrth holi cwestiynau'r holiaduron. Diolch yn fawr i'r disgyblion am fod mor frwdfrydig ac i'r staff am eu gwaith caled.



**Taith Paris disgyblion Ffrangeg Bl 10-13**

Cafodd y disgyblion sy'n astudio Ffrangeg gyfle i ymarfer eu Ffrangeg ar daith i Baris. Ymwelodd y grŵp â'r Tŵr Eiffel, y Louvre, yr ardal Ladin, Tŵr Montparnasse a Montmartre. Cafwyd llawer o hwyl yn bowlio deg hefyd! Roedd yr haul yn tywynnu a'r baguettes yn flasus! Diolch i'r staff am eu gwaith caled ac i'r disgyblion am eu brwdfrydedd a'u hymddygiad gwych.

**Datblygu Sgiliau Arweinyddiaeth**

Llongyfarchiadau i Ffion Marshall Bl11 ar gael cyfle i feirniadu cystadleuaeth gymnasteg. Go dda!

**Academyddion o fri!**

Ymfalchïwn yn llwyddiant 16 o'n myfyrwyr Blwyddyn 12 sydd wedi llwyddo yng Nghynllun The Scholars Programme. Cafodd y myfyrwyr fynd i'r seremoni raddio ym mhrifysgol Manceinion ar Chwefror 8fed.

**Creu chwilfrydedd ym myd Cerddoriaeth**

Cafwyd bore braf i ddisgyblion blwyddyn 7 yng nghwmni'r pianyddion amryddawn Glian Llwyd a Teleri Siân. Pleser oedd gweld eu hwynebau wrth iddynt wylio perfformiad arbennig o 'Carnifal yr Anifeiliaid' gan Saint-Saëns. Yn sicr, bu'n brofiad unigryw wrth i ni gyflwyno'r Cwricwlwm Newydd!

Hefyd cawsom fel ysgol ddathlu Dydd Miwsig Cymru wrth i'r staff arddangos poster ar ddrws eu dosbarth o'u hoff gân Gymraeg, ynghyd â rhoi cyfle i'r disgyblion bleidleisio dros eu hoff gân Gymraeg. Yr un a ddaeth i'r brig ac sy'n rhif 1 ar hyn o bryd yn Ysgol Glan Clwyd yw Dau Fyd gan Yws Gwynedd!

**Chwilio am swydd a chyfle newydd?**

Mae cyfleoedd ar gyfer nifer o swyddi amrywiol gennym ar hyn o bryd. Os ydych awydd her newydd, da chi cysylltwch â ni ar rif yr ysgol sef 01745 582611 neu drwy ebost swyddi@ysgolglanclwyd.co.uk

# COLLI MARI

Trist iawn yw cofnodi marwolaeth Mari Lewis yn ddiweddar. Bu'n athrawes yn Ysgol Glan Clwyd am flynyddoedd lawer.

Magwyd Mari yn Eglwyswrw, Sir Benfro. Bu'n ddisgybl yn Ysgol y Preseli, Sir Benfro cyn mynd i astudio Saesneg ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Cychwynnodd fel Athrawes Saesneg yn Ysgol Glan Clwyd yn 1975 ac ymhen amser dyrchafwyd hi'n ail yn yr Adran Saesneg cyn iddi symud i fyw i Gaerdydd yn y blynyddoedd diwethaf.


Roedd Mari'n ferch ddiwylliedig ac yn ddarllenwraig frwd. I'r disgyblion fu'n eu dysgu, roedd yn athrawes uchel ei pharch, yn annwyl a charedig. Gwerthfawrogent ei gofal ohonynt a'i ffordd unigryw o gyflwyno gwybodaeth iddynt.

Cydymdeimlwn yn fawr â'i chymar, Peredur, a'i ffrindiau oll.



**Academyddion o fri**

# Dysgwyr Cymraeg Nerys Ann Roberts
# Adolygiad 'O Ran' gan Mererid Hopwood




Eleni am y tro cyntaf fel grŵp darllen dysgwyr, penderfynon ni ddarllen nofel Cymraeg 'go iawn' sef un sy ddim wedi cael ei hysgrifennu jyst i ddysgwyr. Enw'r llyfr hwn ydy 'O Ran' gan Mererid Hopwood.

Mae'r nofel yn dweud stori bywyd Angharad Gwyn, gan ddechrau pan mae hi'n bedair oed. Dan ni'n dysgu bod Angharad wedi colli ei mam ac mae hi'n cael ei magu gan ei thad, Ifan, efo llawer o help a chymorth gan ei mam-gu a'i Anti June. Mae Ifan yn gyfansoddwr talentog iawn, ond wrth gwrs ers colli ei wraig mae o yn dioddef cyfnodau o iselder dwfn.

Mae Mererid Hopwood yn defnyddio delweddaeth a disgrifiadau gwych ac mae'r stori yn darllen fel mae merch fach yn siarad. Dan ni'n gweld y byd trwy ei llygaid hi – er enghraifft y bennod am sgydie (esgidiau) oherwydd pan dach chi'n bedair oed a ddim yn dal, dach chi'n edrych ar lawer o esgidiau pobol!

Dan ni'n ffeindio allan llawer am y cyfnod o amser y nofel trwy ddisgrifiadau Mererid Hopwood hefyd. Mae hi'n siarad am sebon coal-tar, pawb yn mynd i'r cwrdd (capel) sawl tro ar Ddydd Sul, y fferins a oedd yn boblogaidd ar y pryd, ac ati.

Un dydd aeth Angharad ac Ifan i'r farchnad yng Nghaerdydd a phrynodd Ifan grwban iddi hi o'r enw Myfanwy. Eto, y disgrifiad o'r farchnad gan Mererid Hopwood yn fendigedig. Fel mae Angharad yn dechrau ysgol mae ganddi hi broblemau efo athrawes llym ac mae hi'n esgus bod yn sâl. Mae Ifan yn ffeindio allan ac mae o'n siomedig. Dyna ddechrau un o themau pwysig y nofel – y cydwybod, a'r pwysigrwydd o drio gwneud y peth iawn, hyd yn oed os mae na leisiau bach yn eich pen yn dweud wrthoch chi i wneud rhywbeth arall.

Pan wnes i ddechrau darllen y nofel hon, ffeindiais i hi'n eithaf anodd. Mae 'na lawer o eiriau o Dde Cymru a llawer o dafodiaith hefyd, ond ar ôl dal ati efo hi dw i'n mwynhau bob tudalen. Mae ysgrifennu Mererid Hopwood yn llifo'n fendigedig - dw i isio gwybod beth sy'n digwydd nesaf!

**Y Brenin Iago**

# Dad-Awgrymeg

Enw fy nosbarth Cymraeg yw Dad-Awgrymeg, a person o'r enw Dr Georgi Lozanov, a oedd yn Seicolegydd Bwlgaraidd, sydd wedi ei ddatblygu. Dw i'n mwynhau'r cwrs achos mae'n wahanol i'r ffordd draddodiadol o ddysgu.

Dan ni'n dechrau efo stori, ac mae ar ffurf deialog. Mae'r dysgwyr yn darllen ac yn cyfieithu tudalen.

Y stori gyntaf gawson ni oedd 'Antur Fawr'. Yn y dosbarth rhoddon ni wahanol enwau Cymraeg i bawb. Ges i yr enw Lowri (Clown Proffesiynol).

Bardo yw enw'r stori dan ni'n ddarllen ar hyn o bryd. Mae'r stori am anturiaethau person ffuglen o'r enw Lisa Salesbury. Mae hi'n dditectif preifat.

**Lowri (yn y dosbarth)**
**Tyna Olsen**

Siop Clwyd
33 STRYD FAWR, DINBYCH LL16 3HY
01745 813431
Llyfrau, Cardiau
Crynoddisgiau a
Chrefftau
siopclwyd@yahoo.co.uk

## O’r Llyfrgell







Yn ystod hanner tymor mis Chwefror, cawsom fore hwyliog gyda’r plant lleiaf yn dod i’r llyfrgell i greu crefftau. Thema’r sesiwn oedd Lliwiau a Siapiau a bu’r plant yn brysur yn chwarae gyda lego, duplo, clai, ac yn gwneud lluniau gan ddefnyddio papur lliwgar.

Mae ein clwb darllen Cymraeg ‘Sgwrs a Sangria’ wedi cyfarfod yn ystod mis Chwefror a’r ddau lyfr dan sylw oedd Bwrw Dail gan Elen Wyn ac Adar Mud gan Siân Rees. Cafwyd cryn drafodaeth am y ddau lyfr ond gan fod nifer wedi bod yn noson Cyfarfod Yr Awdur gydag Elen Wyn yn y Llyfrgell, ‘roedd hyn wedi ysgogi llawer i ddarllen ei llyfr hi. ‘Roedd y mwyafrif wedi mwynhau ei nofel Bwrw Dail am ei fod yn ysgafn a hawdd i’w ddarllen. Mae gan Elen Wyn ffordd o ddweud da a rhai yn gwerthfawrogi hynny mwy na’r stori. ‘Roedd ambell un am fynd yn ôl i’w ddarllen eto, efallai’n fwy pwyllog.

Bydd ein cyfarfod nesaf yma yn y Llyfrgell nos Fawrth, Mai 9fed am 7 o’r gloch a’r ddau lyfr dan sylw fydd Glasynys gan Ann Pierce Jones a Darogan gan Siân Llewelyn. Croeso cynnes i aelodau newydd.

Crefftau’r Pasg - bydd sesiwn galw ar thema’r Gwanwyn i blant yn Llyfrgell Dinbych, bore Mercher, Ebrill 11eg rhwng 10.30 a 12

Bydd angen rhiant i fod yn gyfrifol am y plentyn/plant yn ystod y sesiwn.

Ffoniwch y llyfrgell os am fwy o wybodaeth 01745 816313.

**Emyr Evans** a’i Gwmni Cyf
Uned 9, Stad ddiwydiannol Colomendy,
Dinbych 01745 812333

Stad Ddiwydiannol
Gaerwen
01248 421900

Darnau ar gael ar gyfer pob math o beiriannau fferm, Pibellau Hydrolic, Olew a Gwrthrew
e-bost:info@emyrevans.co.uk

*Trefnwyr Angladdau Annibynnol*
**R.W.Roberts a’i Fab**
Gwasanaeth personol a gofalgar, Ddydd a Nos
Capel Gorffwys breifat yn Ninbych ac yn ein swyddfa newydd yn Abergele

| | |
|---|---|
| Gorffwysfa, Ffordd Ystrad, | Plas Tirion, Kinmel Avenue, |
| Dinbych, LL16 4RH | Abergele, LL22 7LW |
| Ffôn: 01745 812935 | Ffôn: 01745 827777 |
| Ffacs : 01745 817303 | Ffacs : 01745 827750 |
| E:rwroberts.gorffwysfa@gmail.com | E: rwroberts.abergele@gmail.com |

www.rwrobertsandson.co.uk
Golden Charter Funeral Plans
SAIF National Independent Funeral Directors


## Atebion MAWRTH 2023

**Ar Draws :**
9. Pedwarawd
10. Drama
11. Di-rym
12. Prifysgol
13. Marblis
14. Deheuwr
16. Glofa
18. Dŵr
19. Rioja
21. Alaethol
22. Digysur
24. Cyweirnod
26. Pesto
27. Liana
28. Adlewyrchu

**I Lawr :**
1. Epidemig
2. Adarwr
3. Canmoliaeth
4. Campus
5. Odliadur
6. Adwy
7. Dargludo
8. Parlwr
15. Herwgipiwr
17. Orangwtan
18. Dylanwad
20. Afreolus
21. Alcali
22. Didoli
23. Siswrn
25. Irac

**Cofiwch** bod y llythrennau **ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh** a **th** yn mynd i un blwch

## CROESAIR EBRILL 2023



**Ar Draws :**
8. Cerddoriaeth Classic FM
9. Rhan o sgerbwd
10. Bu hwn farw wrth gario glo i'r Fflint
11. Cylchgrawn y Merched (1,4)
12. Cadair heb gefn na breichiau
13. Cynhenid
16. Arwyddo
18. Ifanc 10ad
20. Nwy di-liw, rhif 18 yn y tabl cyfnodol
21. Ystafell neu adran mewn ysbyty
22. Can mlynedd
23. Gêm debyg i bêl-fas
26. Môn neu Enlli
28. ee William Morgan
30. Dilledyn i lapio corff
31. Rhefru a dwrdio
32. Y gellir ei ddirnad â'r llygad

**I Lawr :**
1. Mwynhad
2. ee 9ad, mae 12 pâr yn ein sgerbwd ni
3. Ymladdfa
4. ee 9ad, mae un ym mhob braich
5. Prifddinas Yr Alban
6. Nid pell
7. Glannau'r môr
14. Briw
15. Cwrw Wrecsam!
17. Anaf
19. Taliad cyntaf
20. Anegwyddorol
24. Yr awyr uwch ein pennau
25. ee 9ad, mae un ym mhob braich
27. Ffwr-bwt
29. Rhidyll
30. Ffrwyth





# Ysgol Twm o'r Nant

## Eisteddfod Cylch

Bu'r ysgol yn brysur yn paratoi partion a chorau i .gystadlu yn Eisteddfod Cylch Dinbych a gafodd ei chynnal ddechrau mis Mawrth yn Ysgol Uwchradd Dinbych. Roedd amryw o unigolion wedi bod yn brysur yn ymarfer adref hefyd ac roedd cynteddau yr ysgol yn fwrlwm unwaith eto o ganu, llefaru a cherdd dant. Llongyfarchiadau mawr i bawb a fu'n cystadlu a da iawn wir i'r rhai a fuodd yn ddigon llwyddiannus i gyrraedd y llwyfan.

Ymlaen yn awr i'r Eisteddfod Sir. Wrth i bapur Y Bigwn gael ei roi at ei gilydd mi fyddwn yn gwybod pwy fydd wedi dod i'r brig yn yr Eisteddfod Sir. Cewch ddarllen mwy am hyn tro nesaf.

Byddwn yn ffarwelio â Mrs Mair Roberts neu Anti Mair fel mae'r rhan fwyaf yn ei hadnabod hi yma. Bu hi'n helpu yn yr ysgol am bron i 30 o flynyddoedd, ac erbyn hyn wedi dewis bod hi'n hen bryd cael amser i ymlacio ac ymddeol. Dymunwn yn dda i Anti Mair ac edrychwn ymlaen ati i ddod yma am dro unrhyw bryd, hefo un neu ddau o'i chacennau siocled arbennig gobeithio!! Dymunwn ymddeoliad hapus i chi fel ysgol.

**<u>Uned dan 5</u>**

Ein thema hanner tymor yma ydy Jac a'r Goeden ffa. Rydym wedi mwynhau gwrando ar y stori ac wedi bod yn brysur yn plannu ffa yn yr ardal tu allan. Aethom am dro i Greenfingers i ddewis blodau i'w plannu yn yr ardal tu allan. Diolch i Graham am y croeso cynnes. Mae'r Dosbarth Derbyn wedi bod yn creu lluniau tŷ Jac neu gastell y cawr gyda siapiau 2D.
















Fel rhan o ddathliadau Diwrnod y Llyfr aethom am dro i lyfrgell Dinbych. Cawsom brynhawn bendigedig ! Uchafbwynt y prynhawn oedd cael mynd ar y bws! Cafodd pob plentyn ymaelodi gyda'r llyfrgell a chael dewis llyfr i fynd adref gyda nhw i fwynhau. Diolch yn fawr i Matt a Cheryl am ddarllen stori, a mynd â ni o amgylch y llyfrgell. Cawsom hefyd ddiod a bisged. Am blantos bach lwcus! Diolch o galon am y croeso.




Ar Fawrth y 1af cawsom Eisteddfod Ysgol fendigedig. Llongyfarchiadau mawr i'r plant a ddaeth i'r brig yn y cystadlaethau Celf. Roedd lluniau hyfryd o gennin Pedr gan bawb! Da iawn chi!
Cafodd y plant Te Cymreig i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, ac aeth y plant ar orymdaith Gŵyl Dewi o amgylch yr ysgol. Cafodd y plant gyfle i goginio a blasu cawl cennin. Roedd pawb wedi mwynhau!









Cawsom hefyd ddod i'r ysgol wedi gwisgo fel ein hoff gymeriad o lyfr. Roedd pawb yn edrych yn werth chweil! Aethom ar helfa llyfrau yn yr ardal tu allan! Am hwyl!
Cawsom greu cardiau Sul y mamau bendigedig.




Snow In Summer
33 Stryd y Dyffryn, Dinbych
LL16 3AH
Siop leol yn gwerthu cardiau, anrhegion a phethau vintage




DenbighSnowInSummer
@Snowinsummer_shop
@snowinsummer33

**Uned dan 7**

Mae hanner tymor arall wedi hedfan heibio ac mae plant yr Uned dan 7 wedi bod yn brysur yn mwynhau dysgu am Gymru ein gwlad. Mae'r dysgwyr wedi bod wrth eu bodd yn datblygu sgiliau darllen map, chwarae rôl yn yr orsaf dywydd a dysgu am Stori Gelert y Ci.





Cawsom hwyl yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi yn yr Uned gyda'r plant yn mwynhau paned a chacen gri yn ein Caffi Cymreig yn y dosbarth. Llongyfarchiadau mawr i'r plant a ddaeth i'r brig yng nghystadlaethau Eisteddfod yr Ysgol a chafodd ei chynnal ar Ddydd Gŵyl Dewi.





Dathlwyd Diwrnod Y Llyfr hefyd pan ddaeth pawb i'r ysgol fel cymeriad o lyfr. Roedd pawb yn werth eu gweld.





**Uned dan 9**

Dathlwyd Dydd Gŵyl Dewi eleni drwy orymdeithio i fyny tref Dinbych. Roedd y plant i gyd wrth eu boddau yn cael cymryd rhan. Braf oedd cael canu gyda Band Cambria ar ôl cyrraedd sgwâr Dinbych.








Cynhaliwyd Eisteddfod Gŵyl Dewi yr ysgol yn y pnawn. Roedd y plant wedi bod yn brysur wythnosau yn gynt yn ysgrifennu cerddi ar y thema ‘Teithio’.
Dyma’r rhai a ddaeth i’r brig yn yr Uned dan 9 a llongyfarchiadau i bob un ohonynt.








Llongyfarchiadau i Elen ar gael dwy wobr gyntaf yn yr Eisteddfod Cylch am ganu unawd a cherdd dant. Pob hwyl i ti yn yr Eisteddfod Sir!

Roedd sŵn mawr yn dod o’r uned pan gawson ni gymryd rhan mewn gweithdy drymiau gyda Jonny Baxter fel rhan o gynllun cerddoriaeth cenedlaethol newydd. Roedd gweld yr offerynnau a clywed eu sain yn brofiad newydd i lawer. Cafodd y plant gyfle i gadw rhythm a chwarae pob math o offerynnau taro.










Cawsom ddathlu Diwrnod y Llyfr drwy ddod i’r ysgol yn gwisgo fel cymeriad allan o lyfr. Roedd ambell Harry Potter a Matilda! Cawsom helfa lyfrau o gwmpas yr uned hefyd a chyfle i’r plant ddysgu am lyfrau newydd a’u hawduron.
Diolch yn fawr iawn i Catrin Higgitt o Dŵr Cymru am ddod atom i ddysgu am daith dŵr inni. Cafodd y plant weld sut mae cylchred dŵr yn gweithio ac yna gwneud gweithgareddau ar sut mae posib arbed dŵr yn y cartref.



**Uned dan 11**

Mae hi wedi bod yn amser prysur iawn yn yr Uned dan 11 y tymor yma. Lle i gychwyn?
Yn gyntaf, hoffwn longyfarch pawb a fu'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd eleni, a dymunwn pob hwyl i bawb sydd yn cystadlu yn y Sir. Rhwng yr holl ymarferion mae'r disgyblion wedi bod yn brysur yn gwneud amrywiaeth mawr o bethau. Roedd Blwyddyn 6 yn brysur yn gweithio ar greu tudalen we ar gyfer hwyluso eu cam nesaf ym myd addysg a chawson Ms Davies o Ysgol Glan Clwyd i'n helpu.



Yn ogystal â hyn, mae disgyblion blwyddyn 5 wedi cael modd i fyw ar drip preswyl i Glan Llyn. Roedd y disgyblion wedi ymddwyn yn arbennig o dda ac roedd y staff yn hynod falch ohonyn nhw. Cawson nhw fynd ar y llyn (yn y tywydd oer), dringo, bowlio deg a llawer mwy! Mae'n saff i ddweud fod y plant wedi blino'n lân ar ôl y daith.







Tra bod blwyddyn 5 ar eu hantur. roedd bechgyn Blwyddyn 6 yn hynod o brysur yn nhwrnament Rygbi yr Urdd lle ddaethon nhw yn ail yn y gystadleuaeth. Da iawn chi!

Ar ben hyn i gyd daeth y disgyblion yn syth yn ôl i wneud gweithgaredd gyda chwmni teledu Tekkers. A fydd un o'r rhain yn un o sêr y dyfodol?
Hoffwn hefyd longyfarch tîm cwis yr ysgol ar eu llwyddiant o gyrraedd y rownd derfynol yn y cwis Dim Clem, lle bydden nhw'n cystadlu yn erbyn timau ar draws Cymru gyfan.

Ond mae'r llwyddiant mwyaf yn mynd i Celyn Roberts ar ei llwyddiant o ennill cadair Eisteddfod Ysgol Twm O'r Nant. Roedd cystadlu safonol iawn eleni ar y thema 'Hedfan'. Dyma hi'r gerdd i chi fwynhau:-

### Hedfan

Wrth ddeor yn araf allan o'r wŷ,
Ac agor fy llygaid i geisio gweld mwy,
Dwi'n gaeth yn y carchar gyda bariau cryf,
A dyn yn fy ngwylio o hyd, bob dydd,

Gan gychwyn fflio does dim lot o le,
Tu allan mae adar â phob un cyfle,
Mae'r ffenest ar led ond dwi methu cael'n rhydd,
Plis helpwch! O helpwch fi gael fy ffydd,

Sgrechian a sgrechian gai ddianc yn wir,
Ti'n camu mewn i'r ystafell cym' fi i'r tir,
Dwi'n symud fy adain gyda fy holl nerth,
Dwi'n hapus, dwi'n esgyn, o mae'n brydferth!



Hwn yw'r teimlad o Hedfan

MEIRION DAVIES A'I GWMNI
01745 812400
Ystâd Ddiwydiannol Colomendy,
Dinbych

* Dillad a phethau fferm
* Bwyd anifeiliaid anwes
* Esgidiau a.y.b.
* Teganau plant - a llawer rhagor

CROESO!
'Digon i bawb ohonoch
Ydyw lled ein carped coch'
John Glyn Jones

# Rhoi Hanner Coron ar Y Mul

Fuoch chi erioed mewn siop fetio? Naddo, mae'n debyg.
Unwaith yn unig yn fy mywyd wnes i dywyllu'r fath le, a hynny ar drywydd pêldroediwr nid anenwog o dref Caernarfon, a oedd yn ôl pob sôn ar fin trosglwyddo o un clwb yn Lloegr i un arall.
Yr awgrym a gefais i gan gydweithwyr imi oedd y dylwn alw yn y bwcis gan fod y gŵr ifanc yn mynd draw yno yn y boreau i osod ychydig o arian ar ambell geffyl a oedd yn rhedeg y diwrnod hwnnw.
A minnau wedi'm magu yn yr Ysgol Sul roeddwn ychydig yn nerfus am fynd dros drothwy'r rhan honno o Sodom.
Wel, ta waeth, fe wnes ufuddhau i gais fy meistr a chefais afael ar y gŵr ifanc yn astudio'i bapur newydd yng nghornel y sefydliad.
Fe wnes ofyn iddo a oedd y stori amdano yn un o'r papurau newydd "cenedlaethol" yn wir, ac atebodd yntau yn onest gyda'r geiriau, "Dwi ddim yn gwybod dim byd am hynny. Does yna neb wedi d'eud dim byd wrtha i."
Roeddwn i'n ei gredu o gan mai dyna sut roedd pêldroedwyr yn cael eu trin y dyddiau hynny ac i raddau heddiw hefyd. Y clwb oedd yn gwneud y penderfyniad gan drin y chwaraewr fel rhan o'u heiddo nhw, i'w brynu a'i werthu yn ôl eu mympwy nhw.
Yn y dyddiau hynny dim ond ar geffylau a milgwn roedd pobl yn betio. Bellach mae modd i chi fetio, fe ymddengys, ar bopeth o dan yr haul gan gynnwys a fydd hi'n bwrw eira dros Y Pasg. A does dim rhaid i chi fynychu unrhyw siop fetio i osod eich bet. Gellwch wneud hynny ar-lein neu dros y ffôn.
Mae gamblo wedi mynd yn glefyd i lawer o bobl, a chanlyniadau hynny yn erchyll i unigolion a theuluoedd.
Ac eto i gyd y mae yna unigolion sy'n sêr ac yn selebs mewn meysydd gwahanol yn ymddangos ar hysbysebion ar gyfer gwahanol gwmnîau betio gan annog trueiniaid diniwed i fentro... yn ddoeth cofiwch chi.
Wel, fel y dywedodd un o hogia'r dref hon un tro, "You'll never see a bookie on a bike" ac y mae'i eiriau o'n dangos yn glir pwy sydd ar ei ennill.
Yn rhyfedd ddigon ychydig iawn o feirniadu sydd yna ar y sêr a'r selebs am hyrwyddo'r cwmnîau betio hyn, ac eto fe'u beirniadir yn hallt gan unigolion - gwleidyddion yn arbennig - am ddweud unrhyw beth am faterion cymdeithasol a gwleidyddol nad ydyn nhw'n cydfynd â'u daliadau nhw.
Mae hi fel petai'r gwleidyddion hyn yn credu mai nhw ydy'r unig rai sydd â'r hawl i fod yn berchen barn ar y materion hyn, ac mai'u braint nhw ydy g'neud hyn ar ein rhan.
Wedi'r cyfan be' ŵyr chwaraewyr pêl-droed am faterion gwleidyddol fel polisïau tramor a mewnfudwyr anghyfreithlon?

**Stan Lyall**

************************************************************

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 4 | 9 | 8 | | 5 | | 2 | | 6 |
| | 3 | 5 | | | 6 | | 9 | |
| 6 | | | | 3 | | | 1 | |
| | 4 | 9 | 1 | | | | 7 | |
| | | | 5 | | 7 | | | |
| | | | | | 2 | 9 | 6 | |
| | 5 | | | 7 | | | | 4 |
| | 6 | | 3 | | | 7 | 5 | |
| 9 | | 7 | | 4 | | 1 | 2 | 3 |

Cyngor Sir Ddinbych

Cynghorydd

**Mark John Young**



Dinbych Isaf - Annibynnol

Symudol: 07825 912554

www.sirddinbych.gov.uk

E:mark.young@sirddinbych.gov.uk

Gwefr heb Wifrau **AMGUEDDFA RADIO** Dilynwch ni ar flickr Cwmulus https://cwmulus.org/

**Digwyddiadau:**

## Darlith



Y Cwm

Yn ein darlith Amgueddfa Syr Henry Jones yn ddiweddar, bu Ann Vaughan, un o ymddiriedolwyr yr Amgueddfa yn Llangernyw, yn ein tywys ar daith rithiol o gwmpas hen gartref Syr Henry Jones, 1852-1922.
Roedd Syr Henry Jones a'i deulu yn byw yn y tŷ uchod mewn un ystafell i fyny ac un ystafell i lawr, a'i daid a'i nain yn byw ar y dde. Roedd ei dad yn grydd, yn gwneud ac yn trwsio esgidiau yn y gweithdy ar ochr chwith y tŷ, a dysgodd y mab y grefft oddi wrtho, gan gydweithio ag ef ar ôl gadael yr ysgol yn 12 oed. Gweithiai gyda'i dad yn ystod y dydd a 'gyda'i lyfrau ….. tan berfeddion a thoriad gwawr'. Enillodd ysgoloriaeth i hyfforddi fel athro yng Ngholeg y Normal, Bangor, a bu'n dysgu yn Ne Cymru a darlithio yn Aberystwyth a Bangor, cyn symud i Brifysgol Glasgow fel Athro Athroniaeth Foesol. Nid anghofiodd ei wreiddiau gwerinol a gweithiodd yn ddygn i wella'r system addysg yng Nghymru, gan sefydlu ysgolion uwchradd bedair blynedd ar ddeg o flaen Lloegr. Yn 1912 cafodd ei urddo yn farchog, ac yn Gydymaith Anrhydeddus yn 1922. Derbyniodd fedal Cymdeithas y Cymrodorion am ei wasanaeth i'w wlad.
Mae'r gegin a'r llofft wreiddiol wedi eu cadw yn yr Amgueddfa fel ag yr oeddent, yn ogystal â gweithdy'r crydd. Mae yma hefyd arddangosfeydd a chreiriau o fywyd mewn cymuned nodweddiadol Gymreig yn oes Fictoria.
Agorwyd yr Amgueddfa yn swyddogol yn 1934, gan David Lloyd George.
Am fwy o wybodaeth edrychwch ar www.amgueddfasyrhenryjones.co.uk
I ymweld, cysylltwch â syrhenryjones@hotmail.com



Y cwpwrdd tridarn derw.



Cloc Moses Evans, gwneuthurwr clociau lleol.



Mae'r llinyn yma wedi ei glymu wrth grud y babi yn y llofft, ac yn hongian trwy dwll yn y nenfwd yn y gegin islaw, fel bo mam Syr Henry yn medru siglo'r crud i dawelu'r babi pan fyddai'n crio, heb adael ei gwaith yn y gegin.
Roedd Syr Henry Jones yn gyfaill i David Lloyd George, y Prif Weinidog, y ddau ohonynt wedi eu magu mewn tlodi ac wedi dysgu bod yn gryddion.
Yn ogystal, pan oedd mab Syr Henry Jones, Elias, yn garcharor yn Nhwrci yn ystod rhyfel 1914-1918, anfonai gardiau post adre at ei deulu yn cynnwys neges gudd ar gyfer y Prif Weinidog, am amgylchiadau gwael y carcharorion. Roedd hyn yn gyfle i'r Prif Weinidog gynorthwyo'r rhai oedd yn dioddef.




Mae'r twll yn y llawr i'r chwith o'r crud.



Dyma'r lle tân



**Sgwrs, Paned a Chacen**
Dyma rai o wirfoddolwyr Amgueddfa Gwefr heb Wifrau a ddaeth at ei gilydd yn ddiweddar am fore Sgwrs, Paned a Chacen. Mae'r boreau hyn wedi bod yn fodd i gadw mewn cysylltiad tra bo'r Amgueddfa ar gau dros y gaeaf.



**O'r casgliad**
Dyma falfiau Acorn, ychydig yn fwy yn eu maint na mês go iawn, a gynhyrchwyd yn UDA oherwydd nad oedd falfiau derbynyddion radio oedd yn bodoli yn y 1930au yn medru ymdopi â'r amleddau uwch newydd ar gychwyn teledu a radar. Roedd bychander y falfiau yn gwella mwyhad ar yr amleddau newydd. Roedd y falfiau yn anodd iawn i'w cynhyrchu a daethant i ben yn y 1950au cynnar pan ddatblygwyd mathau newydd.

**Digwyddiadau'r dyfodol**
Ar Ebrill 28ain bydd Dr D. Ben Rees yn sgwrsio yn Gymraeg ar Cofio'r Arlunydd Cymreig Augustus John: yn ei gynefin yng Nghymru ac yn Ninas Lerpwl. Arlunydd o Ddinbych y Pysgod oedd Augustus John a fu'n ddarlithydd yn Ysgol Arlunio Prifysgol Lerpwl ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Cyfarfu â John Sampson, llyfrgellydd y Brifysgol, oedd yn awdurdod ar y Sipsiwn Cymraeg, a mabwysiadodd Augustus John ffordd o fyw'r sipsiwn. Ni fu'n byw yn hir yn Lerpwl, ond gwnaeth argraff fawr ar y ddinas ac enwyd tafarn ar gampws y Brifysgol ar ei ôl yn 1967. Cynhaliwyd arddangosfa o'i waith yn 2022 a chynhelir gŵyl i gofio amdano ef a'i ffrind John Sampson yn Lerpwl ar Fehefin 17eg eleni gan Gymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Merswy.
Mae'r ddarlith yn agored i bawb ac yn cychwyn am 7.00 y.h. Ewch i wefan Cwmulus neu dudalen Facebook Gwefr heb Wifrau i gofrestru ac i ddewis opsiwn cyfieithu ar y pryd os oes angen.

**Ymweld â'r Amgueddfa**
O Ebrill 8fed ymlaen, bydd yr Amgueddfa ar agor bob dydd Sadwrn, 11.00yb – 4.00 yp. Yn ogystal, os ydych am ymweld ar unrhyw adeg arall, cysylltwch â gwybod@gwefrhebwifrau.c


J&G | Jones & Graham
CYFRIFWYR | ACCOUNTANTS

Gyda dros 40 mlynedd o brofiad mewn darparu gwasanaeth cyfrifeg ariannol ledled Gogledd Cymru. Mae ein holl wasanaethau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn cynnwys y canlynol:

- Dechrau busnes
- Cwmniau Cyfyngedig
- Cyflogau
- Cyngor treth
- Hunan asesiad
- Cadw llyfrau
- Cynllunio treth
- TAW

CYFARFOD CYNTAF YN RHAD AC AM DDIM

45 Stryd y Dyffryn, Dinbych, Sir Ddinbych, LL16 3AH
01745 816321
office@jonesandgraham.co.uk
www.jonesandgraham.co.uk
ACCA
Cymraeg



CYFREITHWYR
SwayneJohnson
SOLICITORS

**Gwasanaethau i Chi**
- Trawsgludo – Symud Tŷ a Materion Eiddo Preswyl
- Landlord a Thenant
- Cyfraith Teulu
- Ewyllysiau, Ymddiriedolaethau ac Ystadau
- Llys Gwarchod a Phwerau Atwrnai
- Cynllunio Ffioedd Cartrefi Gofal
- Cynllunio Treth
- Cyfraith Elusennol ac Eglwysig
- Cyfreitha Sifil, Anghydfodau ac Hawliadau
- Cyfraith Cyflogaeth

**Gwasanaethau ar gyfer eich Busnes**
- Cyfraith Amaethyddol
- Ffurfiant Busnes a Chwmnïau a Corffori
- Strwythurau Busnes a Phartneriaethau
- Eiddo Masnachol – prynu a gwerthu
- Cyfraith Cyflogaeth
- Eiddo Deallusol
- Cartrefi Gofal
- Cyfraith Elusennol ac Eglwysig
- Diwydiant Hamdden – Parciau Gwyliau a Carafanau, Gwestai a Cyfraith Trwyddedau

2 Sgwâr y Neuadd, Dinbych, LL16 3PA
01745 812835
www.swaynejohnson.com cyfraith@swaynejohnson.com
Y Cyfreithwyr Arbenigol yng Nghalon eich Cymuned
Hefyd yn Rhuthun, Llanelwy, Llandudno, Bangor a Tattenhall

# Elizabeth Casson (1881-1954)



Tŷ nobl ar Ffordd Rhuthun yn y dre rhwng Pentir a Derwen Deg ydi Cae Derw ac wrth y drws ffrynt mae plac treftadaeth brown ac ar y plac y geiriau hyn yn ddwyieithog **'Sylfaenydd Ysgol Therapi Galwedigaethol Gyntaf y D.U. Ganed Yma Dr. Elizabeth Casson 1881- 1954.'**

Nerys Ann Roberts mewn cwis yn ddiweddar a ddaeth ag enw Dr. Elizabeth Casson i fy sylw.

Cafodd Elizabeth(Elsie) ei geni yn Ninbych yn Ebrill 14eg.1881, chweched plentyn o saith i Thomas Casson a Laura Ann. Roedd ei thad, Thomas Casson, yn rheolwr banc ac yn adeiladydd organau (cerdd) amatur. Tra'n byw yn Ninbych, anogwyd y saith plentyn i fwynhau'r celfyddydau. Dyma hefyd deulu cerddorol.

Ym 1891 penderfynodd Thomas sefydlu busnes gwneud organau (cerdd) a symudodd y teulu i Lundain. Yno aeth Elizabeth Casson i goleg i ysgrifenyddion dan orchymyn ei thad. Ar ôl cymhwyso, bu'n ysgrifenyddes ym musnes gwneud organau ei thad tan iddo ymddeol ym 1908. Gweithiodd wedyn fel ysgrifenyddes/rheolwr i'r diwygiwr cymdeithasol Octavia Hill gan ofalu am amgylchiadau byw preswylwyr Red Cross Hall yn Southwark ac am bum mlynedd bu'n trefnu gweithgareddau amser hamdden yno gan roi pwyslais ar y celfyddydau. Roedd cerddoriaeth, drama, garddio, celf, gymnasteg a chwaraeon yn rhan o'r rhaglen.

Ym 1913 a hithau'n 32 oed, aeth i'r brifysgol ym Mryste i astudio meddygaeth. Hi oedd y ferch gyntaf i raddio yno a hynny ym 1919 gan dderbyn swydd mewn ysbyty yn Hemel Hempstead. Sylwodd yno fod merched claf ar y ward yn mwynhau defnyddio eu talentau artistig ac fe benderfynodd fod hyn yn rhan bwysig o'u triniaeth. Roedd gweithgareddau o'r fath nid yn unig yn eu cadw'n brysur ond hefyd yn eu helpio gyda'u hunan-



Cae Derw

werth ac yn gallu datrys eu problemau hefyd.

Yna dechreuodd ei chysylltiad hir â Therapi Galwedigaethol gan agor ysgol gyntaf Therapi Galwedigaethol yn y D.U. yn Dorset House ym Mryste ym 1929 gyda lle i 800 o gleifion. Yn ddiddorol roedd clinic i ferched gyda phroblemau iechyd meddwl yn rhan o'r sefydliad hwn.

Parhaodd ei diddordeb yn y maes wrth iddi ymwneud â Chymdeithas y Therapyddion Galwedigaethol (AOT) a sefydlwyd ym 1939. Arweiniodd ei gwaith at greu Ffederasiwn Therapyddion y Byd (WFOT) ym 1952. Cafodd ei hanrhydeddu am ei gwaith gan WFOT ym 1954 a derbyniodd yr OBE ym 1951.

Ni chollodd gysylltiad â'i gwreiddiau yng Nghymru gan drafod y tebygrwydd rhwng Bryste a Chymru dros bryd o fwyd gyda maer Bryste ym 1931 a daeth yn Llywydd Cymdeithas Cambrian Bryste ym 1934 a 1939.

Roedd Elizabeth Casson yn berson unigryw ac yn berson allweddol yn hanes Therapi Galwedigaethol yn hanner cyntaf yr 20fed. ganrif.

Bu farw ym 1954 ym Mryste.

**Diolch i Gwyneth Kensler am ei help (gol.)**




Y BIGWN

# YN EISIAU!


Aelodau newydd i ymuno â thîm golygyddol bychan Y Bigwn, i ddechrau o fis Hydref 2022.
Oes ganddoch chi ddiddordeb mewn hanesion a chymeriadau lleol?
Ydych chi eisiau cyfrannu mwy i'r gymuned leol?
Ydych chi awydd sialens newydd?
Os ydi'r ymateb yn bositif i unrhyw un o'r cwestiynau hyn, cysylltwch â ni yn Y Bigwn am fwy o wybodaeth.
Ebost – gwybod@ybigwn.cymru neu ybigwn@hotmail.co.uk
Stan Lyall (01745 813659) neu
Sian Rogers (01745 813368)



TE YN Y GRUG

**Tŷ Te a Delicatessen**
**Coronation Buildings,**
**Lôn Gefn,**
**Dinbych, Ll16 3TE**
**01745 816576**

# Cymro yn Seland Newydd



Efalle y bydd rhai ohonoch yn fy nabod fel Richard Evans o Ysgol Twm o'r Nant (70au) ac Ysgol Uwchradd Dinbych (80au) ond yn 2004 nes i newid fy enw drwy Deed Poll i **Rhisiart ap Gwilym**. Dyma fy mhrofiad o fyw yn Seland Newydd.

Ers i fy ewythr symud i Seland Newydd yn y saithdegau, mae'r syniad o ymfudo yno wastad 'di bod yng nghefn fy meddwl. Yn ystod 1999, penderfynodd Amanda a finnau i wneud cais am Fisa Preswylio (Residency Visa). Cymerodd dros flwyddyn ond erbyn hynny, roedden ni'n edrych 'mlaen at ein bywyd newydd yn Aotearoa.

Roedd y tywydd yn debyg i Brydain ond mewn rhai lleoedd roedd y tymheredd yn llawer poethach ac mewn llefydd eraill yn llawer oerach! Yn ystod y gaeaf, mae'r tymheredd yn medru syrthio i tua rhewbwynt ond yn codi i tua ugain gradd yn y pnawn - bydd angen sawl dilledyn newid yn ystod y dydd! O leiaf yn y wlad hon, os ydi hi am fod yn oer yn y bore, mi fydd hi'n oer drwy'r dydd!



Seland Newydd neu Cymru ?



Cymru neu Seland Newydd ?

Mae'r boblogaeth frodorol, y Maori, wedi dioddef yn enfawr dros y blynyddoedd ers i'r Deyrnas Unedig oresgyn y wlad yng nghanol y 19eg canrif, yn union fel y brodorion yn Awstralia. Ers hynny, mae'r amodau wedi gwella ond mae'r tir, iaith a hawliau sifil dal yn faterion dadleuol fel y maen nhw hefo grwpiau lleiafrifol a threfedigaethau eraill o gwmpas y byd heddiw.

Yn Christchurch roedden ni'n byw. Rhai penwythnosau, bydden ni'n teithio ar fotor-beic i Banks Peninsula, ein llosgfynydd segur lleol, i fwynhau'r ffyrdd heriol, golygfeydd godidog, a bwyd y diwylliant Ffrengig yn Akaroa. Amserau eraill, bydden ni'n teithio ar draws y Canterbury Plains hir, gwastad a diflas i gyrraedd Alpau'r De a drosodd i'r ochor arall lle mae'r tonnau yn taro yn erbyn yr arfordir gorllewinol. O fan'na, medrwch chi edmygu rhewlifau Mynydd Cook sydd yn sefyll yn fawreddog pedwar mil medr uwchben tra mae'r pryfaid tywod yn brathu eich croen ac yn tynnu gwaed!

Rwan ein bod ni wedi setlo i lawr o'r diwedd, rydyn ni'n gallu dweud yn saff ein bod wedi darganfod ein lle perffaith i fyw. Yn wir, rydyn ni erioed wedi bod yn fwy hapus - Parciau Cenedlaethol, golygfeydd anhygoel, arfordir garw a thraethau braf gyda dŵr clir o amgylch. Mi ellwch chi syrffio, neidio o awyren, rafftio dŵr gwyn, nofio gyda'r dolffiniaid neu ddringo mynyddoedd a llawer mwy. Mae'r bobl yn andros o gyfeillgar ac yn falch o'u hanes, eu hiaith a'u gwlad.

Tybed a fyddwch chi'n synnu os rydyn ni'n deud bod y paragraff diwetha' yn disgrifio Cymru? Ie, dyna fo - ar ôl tair blynedd penderfynon ni i symud nôl i Brydain ac yn ffodus iawn darganfod gwaith nôl yng Nghymru, y wlad lle cefais fy ngeni a lle mae fy nghalon i'n dal i fod.

Weithiau, mae'n cymryd taith dros ddeuddeg mil o filltiroedd i un o'r gwledydd gorau yn y byd cyn i chi sylweddoli pa mor ffodus rydych chi i fyw mewn gwlad fel Cymru.

**Rhisiart ap Gwilym (Richard Evans gynt)**

Mae nifer o ddarllenwyr Y Bigwn yn chwarae golff. Dyma holi dau ohonynt sef Janice ac Eric.

# Janice Jones



**O ble daeth y diddordeb mewn golff?**
Pan oeddwn yn byw yng Nghorwen roedd dad, Griff Rochards, yn aelod o Glwb Golff Rhuthun/Pwllglas a minnau yn mynd efo dad ambell waith jyst i gerdded o gwmpas y cwrs. Mwynhau yr awyr iach a'r olygfa hardd sydd i weld yna a meddwl mmmmmmmmmmmm, hwyrach un diwrnod!!!

**Ers faint rydych wedi bod yn chwarae golff?**
Nes i ymuno â Chlwb Golff Dinbych yn 1984 a dechrau dysgu am y gêm a sut i daro'r bêl!

**Ble rydych chi'n chwarae a pa mor aml rydych yn chwarae?**
Dal i chware yn Ninbych mor aml â phosib yn yr Haf ond dim mor aml yn y Gaeaf!!!

Wedi chwarae mewn nifer o wledydd tramor – Sbaen, Gwlad Groeg, Portiwgal, America a De Affrica ond i ddweud y gwir, does na nunlle i gymharu â Chwrs Golff Dinbych ond mi ellwch ddweud mod i'n gwisgo "rose tinted glasses" ond dyna'r gwir.

**Oes yna rywun rydych yn ei edmygu yn y byd golff a pam?**
Fy arwr ydi Jack Nicklaus. Yn ei gyfnod, fo oedd chwaraewr gorau'r byd, yn ennill 18 majors, yr olaf pan oedd yn 46 oed. Mi neith neb byth wella'r record. Roedd o bob amser yn chwarae yn ôl y rheolau a'i "sportsmanship a'i fair play" yn esiampl i bawb sy'n chwarae golf.

**Ydych chi wedi bod mewn twrnament golff proffesiynol fel yr Open erioed?**
Wedi bod yn gweld yr Open ambell waith ac yn mwynhau gweld chwaraewyr gorau'r byd golff yn agos a sylweddoli mor bell a phur mae nhw'n taro'r bel. Y "bucket list" oedd mynd i Augusta i weld y Masters. Wedi bwcio i fynd yn 2020 ond fe ddaeth cofid 19 a rhoi stop ar y trip ond dwi'n dal i obeithio!!

**Unrhyw droeon trwstan?**
Digon o droeon trwstan – methu'r putt i ennill y gêm neu daro'r bêl i'r dŵr. Ond i ddweud y gwir shot ddrwg ydi'r broblem!!

**Be sydd mor arbennig am Glwb Golff Dinbych? Unrhyw glwb golff arall yn sefyll allan?**
Mae Clwb Golff Dinbych yn arbennig am sawl rheswm. Y cwrs wrth gwrs – mor hardd a'r olygfa i lawr Dyffryn Clwyd yn fendigedig. Dydi o ddim yn hir o'i gymharu â chyrsiau eraill ond mae'r coed o gwmpas y fairways, rhai yn y canol, yn gwneud i ni feddwl lot – lle i daro'r bêl i'w hosgoi nhw! Wedyn yr aelodau – wedi gwneud llawer o ffrindiau yno ac yn mwynhau yn fawr yr hwyl a'r cymdeithasu a chlywed straeon a'r tynnu coes sydd yn rhan fawr o'r hwyl.

**Beth ydi eich handicap ar hyn o bryd? Os na newid wedi bod ar hyd y blynyddoedd?**
Fy handicap ar hyn o bryd ydi 26.Wedi dechrau efo 36, wedi mynd lawr i 14 ac wedi dod i'r safon rwan. Mae'r ffordd o gyfri'r handicap wedi newid tair gwaith dros y blynyddoedd a dydi'r un sydd gennym ar y funud ddim yn boblogaidd iawn gan y mwyafrif o'r chwaraewyr!!!

**Oes unrhyw dwrnament roeddech yn cymryd rhan ynddo yng Nghlwb Golff Dinbych yn sefyll allan?**
Nes i fwynhau'r ddau dwrnament oedd yn cael eu cynnal pan oedd yr Eisteddfod Genedlaethol yn Ninbych. Braf oedd cael dangos ein cwrs i bobl ledled Cymru a braf i'r dref hefyd.

**Ydi'n gêm gostus?**
Mae'n dibynnu ar lot o bethe. I feddwl ei bod yn bosib chwarae bob dydd o'r flwyddyn heblaw am Ddydd Nadolig, dydi o ddim yn gostus.
Wedyn prynu clybiau - mae'r prisiau yn mynd yn uchel iawn, iawn i weddol rad! Wedyn y dillad!!! Rydyn ni Ladies eisiau edrych yn smart dros ben yn chwarae, felly mae'n ddigon hawdd gwario gormod weithiau!! Mae na ddywediad"All the gear and no idea."
Da ni jyst yn gobeithio nad di'r dillad yn addas i ni!!

**Sut fuasech chi'n perswadio rhywun i chwarae golff?**
Dewch i gael go. Ewch i'r Driving Range a thrio taro'r bêl. Dwi'n siwr mi neith hynny neud i chi feddwl am drio go iawn. Mae'r Clwb yn gobeithio rhedeg New to Golf unwaith eto. Mi gewch wersi a siawns i ddysgu lot am y gêm. Edrychwch allan am yr hysbys neu gofyn i rywun rydych yn ei nabod i fynd â chi i gael go ar y cae ymarfer.

**Unrhyw fater arall y buasech yn hoffi ei rannu efo'r darllenwyr am golff?**
Mae golff yn gêm ffantastig. Mae yn gymdeithasol, cael chwarae yn yr awyr iach gyda golygfa fendigedig a byd natur o'ch cwmpas. Dim ots os ydych yn gystadleuol neu jysd isio mynd allan am rownd gymdeithasol efo ffrindiau.Mi newch chi fwynhau cwmni "like minded people" a gwneud ffrindiau sydd i fi wedi para o'r diwrnod cyntaf yn y Clwb hyd at heddiw.

CYFREITHWYR SOLICITORS
GUTHRIE JONES & JONES
29 FFORDD RHUTHUN,
DINBYCH LL16 3EH
Ffôn : 01745 814 817 E-bost: dinbych@guthriejj.co.uk
Gwefan: www.guthriejj.co.uk
Gwasanaeth Cyfreithiol cyflawn yn y Gymraeg

CATalyst Systems - 01745 816611
enquiries@catsystems.co.uk
Cymraeg
Cyfrifaduron a Gliniadur (Trwsio a Gwerthu)
Sganwyr llaw - Systemau CCTV
Lloeren a hwb ar systemau rhyngrwyd 4G
Wi-Fi Adeilad i Adeilad www.catsatwales.co.uk
Unit 15B Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA

# Eric Howells



**O ble daeth y diddordeb mewn golff ac ers faint rydych wedi bod yn chwarae golff?**

Sut gychwynais – wel, prynu clybiau ail law fel anrheg penblwydd i'm gwraig Mai pan oeddem yn byw yn Rhuthun yng nghanol y chwedegau. Symud i Ddinbych yn '67 a dod i 'nabod aelod oedd yn chwarae yma - ymuno â'r clwb – Hydref '68. Felly rwyf wedi bod yn aelod o Glwb Golff Dinbych am 55 o flynyddoedd. Dros y cyfnod yma rwyf wedi cerdded cannoedd o filltiroedd yma yn Ninbych, a thros y byd – o Seland Newydd i'r Unol Daleithiau a llawer gwlad yn Ewrop.

Wedi chwarae pob math o chwaraeon, unwaith roedd golff wedi dal fy sylw, 'roeddwn yn benderfynol i wella fy safon ac i gael meistrolaeth o'r gêm. Fe werthais hen glybiau Mai a phrynu rhai newydd i mi fy hun!!!(Dim maddeuant!!) Yna – oriau o ymarfer ar ben fy hun ar gaeau yr Hen Ysbyty Meddwl Dinbych, gydag ambell gyfnod o hyfforddi gan rhai o sêr y clwb yr adeg hynny.

**Oes yna rywun rydych yn ei edmygu yn y byd golff a pam?**

Yn y blynyddoedd cynnar – Jack Nicklaus heb os oedd fy arwr, ac yna daeth Seve Ballestaros a Tiger Woods. Roedd safon gêm y tri yma yn wyrthiol ac yn dangos pa mor fedrus oeddent ar reoli'r bêl fach wen. Yn awr – Rory Maclroy.

**Ydych chi wedi bod mewn twrnament golff proffesiynol fel yr Open erioed?**

Rwyf wedi chwarae mewn cannoedd o dwrnaments ond dim mewn sefyllfa broffesiynol a dwi heb chwarae yn erbyn neb enwog. Rwy'n perthyn i gymdeithas o'r enw "Y Narwhals" a sefydlwyd yn 1935 ac sy'n enwog gyda nifer o chwaraewyr gorau'r Gogledd yn aelodau ac yn cynnwys Clive Brown – Capten 'Royal St Andrews' ar hyn o bryd. Bob blwyddyn rydym yn cael cystadlaethau yn erbyn cymdeithasau eraill o bob cwr o Brydain Fawr.

Fe ddaeth cyfle i weld y goreuon yn cystadlu yn yr 'Open' yn Hoylake ac ar arfodir Swydd Gaerhirfryn ac yna cael cyfle i chwarae'r cyrsiau yma gyda ffrindiau ond braidd yn gostus. Y daith orau oedd cael pedwar diwrnod yn Augusta gyda nghefnder, i weld y Meistri yn 2008 - profiad anhygoel.

**Unrhyw droeon trwstan?**

Troeon trwstan – dim felly ond digon o siomedigaethau.

**Be sydd mor arbennig am Glwb Golff Dinbych? Unrhyw glwb golf arall yn sefyll allan?**

Clwb Golff Dinbych – cwrs bach byr ond mewn sefyllfa arbennig. Ar ddiwrnod braf, beth bynnag y tymor, mae'n fendigedig o le i fwynhau y golygfeydd o'ch cwmpas - lliwiau gwahanol y tymhorau wrth edrych i lawr y dyffryn ac i fyny at Fryniau Clwyd yn eu holl ogoniant. Amrywiaeth o dyllau a'r lawntiau cystal ag unrhyw gwrs.

Beth ydi eich handicap ar hyn o bryd? Oes yna newid wedi bod ar hyd y blynyddoedd?

'Roedd y dull 'handicap' yn reit wahanol pan ddechreuais ac yn cael disgyn yn arw ar ôl chwarae i'r safon neu well. Disgynnodd yr handicap ar ôl blwyddyn i ddeuddeg (ac ennill 10 swllt ar ôl bet gydag un aelod o'r clwb).

Ar y pryd roeddwn yn chwarae rygbi i Ruthun a chriced i Ddinbych ond roedd golff wedi cael gafael go iawn ac roeddwn yn mwynhau yr ymarfer ar ben fy hun. Llwyddiant a ddaeth, a'r handicap yn disgyn i wyth, ac ar ôl blwyddyn arall i lawr i bedwar. – doedd dim edrych yn ôl nawr. Ar ôl yr holl flynyddoedd, llwyddais i ddisgyn i dri, ond hwnnw oedd yr handicap gorau a gefais a hynny ond am ychydig fisoedd yn unig. Yn awr rwyf wedi codi i bymtheg. Yr anhawster mwyaf ydi colli cryfder ac ystwythder a cholli pellter wrth daro'r bêl fach.

**Oes unrhyw dwrnament roeddech yn cymryd rhan ynddo yng Nghlwb Golff Dinbych yn sefyll allan?**

Y gamp fwyaf i mi oedd cystadlu ym Mhencampwriaeth y Clwb, ond dim ond unwaith ddois i'r brig – a dod yn ail chwe gwaith! Rhy hen 'rwan.

Mae cwrs Dinbych yn reit fyr ond er hynny mae digon o goed i rwystro pob ergyd. Yn y dechrau, cwrs naw twll ydoedd ac yna yn 1986, cyfle i ychwanegu 9 twll arall yr ochr arall i'r lôn, ac yna, yn dilyn hyn, daeth cynnydd yn nifer yr aelodau. Cefais yr anrhydedd i fod yn Gapten ar y Clwb yn 1993, ac fel oedd yn digwydd ar ddiwrnod y Capten, roeddwn yn dathlu fy mhenblwydd yn hanner cant – diwrnod arbennig, diwrnod i'w gofio!!

Wedi derbyn llawer anrhydedd. Wedi bod yn ysgrifennydd y sir am ddeugain mlynedd, cael fy newis yn Gapten y Sir yn 1996 a Llywydd yn 2000. Cael fy ethol fel cynrychiolydd y sir i Fwrdd Cymdeithas Golff Cymru oedd yn brofiad arbennig yn mynd o gwmpas clybiau'r gogledd i fesur a pharatoi 'Slope' ar gyfer y mesur newydd oedd i ddod i bob clwb dros y byd. Yn olaf, cefais fy newis i fod yn Llywydd Siroedd Gogledd Cymru.

**Ydi hi'n gêm gostus?**

Yn gostus – ydi i raddau. Mae aelodaeth llawn eleni yn £615. Cewch chwarae am ddim ond mae tâl o £3 i bob cystadleuaeth. Hefyd, os dewis chwarae clybiau eraill – mae angen talu 'green fee' sydd yn amrywio dipyn!

**Sut fuasech chi'n perswadio rhywun i chwarae golff?**

Rwyf wedi cael blynyddoedd lawer o fwynhad gyda'r gêm – pob tro yn her, a phob tro yn gymysg o lwyddiant a siom. Allan yn yr awyr agored, hwyl hefo ffrindiau yn cerdded y rhodfeydd a pheint ar ôl y gêm. Dwi ddim yn hoff o law ac wedi fy nal lawer i dro ond gyda'r dillad iawn – dal yn sych. Felly rhowch gynnig arni ond cofiwch, mae eisiau amynedd oherwydd mae'r bêl fach ar brydiau â meddwl ei hun ac yn ffeindio pob twll a chornel i guddio. Yn ffodus a llawer o lwc, dwi wedi cael saith twll mewn un – pedwar yn Ninbych, un ym Mhorthmadog, Hen Golwyn a Phadeswood a Buckley. Mae'n gêm am oes – gall plentyn bach gael lot o hwyl ac fel popeth arall, gorau cychwyn yn ifanc ac fel fi y flwyddyn hon yn wythdeg, yn dal i gerdded y rhodfeydd a mwynhau dilyn y bêl fach wen gan obeithio y bydd llawer eto i ddod.

'Bydd unrhyw un sydd wedi bod yn dilyn canlyniadau timau hŷn y clwb yn ymwybodol iawn o'r heriau amlwg rydym wedi eu hwynebu yn ystod hanner cyntaf y tymor.
Serch y canlyniadau, bydd ein cefnogwyr dwi'n siŵr wedi gweld newid mawr mewn safon perfformiadau yn fwy diweddar ac yn falch o weld y timau'n chwarae rygbi llawer mwy diddanus a chreadigol. Mae'r bwriad i chwarae rygbi ymosodol yn rhan annatod o Glwb Rygbi Dinbych ac mae'n braf gweld ymdrechion ac agwedd ein chwaraewyr i wella yn dechrau talu ffrwyth yn ail hanner y tymor.
Agwedd calonogol iawn ydi'r ffaith fod mwy o chwaraewyr ifanc yn pontio o garfan yr Ieuenctid ac wedi cynrychioli'r 2il dîm a'r tîm 1af ers y Nadolig. Rhain yw dyfodol ein Clwb ac rydym yn falch iawn o'u croesawu i'n plith. Gobeithiwn gael gweld mwy fyth yn ymuno hefo ni dros y tymhorau sydd i ddod.'
**Geraint Madoc-Jones, Hyfforddwr Tîm Cyntaf C.R.D.**

"Ar y pedwerydd o Fawrth cafodd bump chwaraewyr tîm ieuenctid y cyfle i gynrychioli'r ail dîm mewn gêm gystadleuol yn erbyn Rhosllannerchrugog.
Coronodd Elias ei berfformiad drwy sgorio ei gais cyntaf i dîm hŷn CRD ac roedd egni ac ymroddiad y gweddill yn gaffaeliad i'r tîm er ni aeth y canlyniad eu ffordd.
Bydd sawl aelod arall o'r tîm ieuenctid yn troi'n ddeunaw yn y misoedd nesaf sy'n argoeli yn wych ar gyfer y dyfodol."
**Eilir Jones - Hyfforddwr Ail Dîm C.R.D.**

"Mae tîm dan 10 oed Clwb Rygbi Dinbych yn parhau i hyfforddi'n galed ar nosweithiau Wener ac maent yn arddangos eu sgiliau tîm wrth chwarae gemau ar foreau Sul. Rydym wedi cael rhai gemau anodd y tymor yma yn chwarae yn erbyn chwaraewyr cryf ar draws Gogledd Cymru. Cafodd y tîm fuddugoliaeth haeddiannol yn erbyn y Rhyl mewn glaw trwm a mwd hyd at eu pengliniau ond mewn gwir ysbryd CRD chwaraeon nhw yn wych fel tîm. Mae'r tîm bob amser yn edrych ymlaen at y gêm nesaf a dangos brwdfrydedd a chariad tuag at y gêm; mae'r hyfforddwyr yn hynod o falch o bob un chwaraewr.
Mae Tîm o dan 10 yn hyfforddi bob nos Wener yn y Clwb am 6.30pm - 7.30pm ac yn croesawu chwaraewyr newydd."
**Hannah Belfield - Hyfforddwr Tîm dan 10 C.R.D.**

Mae CPD Tref Dinbych wedi cyrraedd rownd derfynol Tlws FAW Dragon Signs. Mae hyn yn llwyddiant anhygoel gan y Clwb ar ôl i 248 o dimoedd ledled Cymru ddechrau cystadlu yn y gystadleuaeth yn ôl ym mis Medi 2022.
Cyrhaeddodd Ddinbych y ffeinal mewn steil wrth guro Bridgend Street o ardal Caerdydd o 8-1 yn y gêm gyn-derfynol a hynny yn Llanidloes. Teithiodd dau fws llawn a sawl car o gefnogwyr i'r canolbarth i gefnogi dynion Dewi Llion. Wedi hanner cyntaf arbennig, roedd Dinbych ar y blaen o 6-1 wrth iddyn nhw orchfygu'r gwrthwynebwyr o dde Cymru.
Bydd y gêm derfynol yn cael ei chwarae yng nghanolbarth Cymru ar y 29ain o Ebrill yn erbyn tîm arall o ardal Caerdydd sef Trethomas Bluebirds. Fe guron nhw Llandrindod Wells i gyrraedd y ffeinal. Unwaith eto, bydd y clybiau yn rhedeg bysiau i'r gêm a bydd manylion ar wefannau cymdeithasol y Clwb yn fuan.
Enw blaenorol y Tlws oedd Cwpan Amatur Cymru, a dim ond unwaith mae Dinbych wedi cyrraedd y ffeinal, a hynny yn 1924 pan guron nhw 2-1 yn erbyn Lovell Athletic. Tîm o weithwyr ffatri fferins Lovell oedd y chwaraewyr hynny o Gasnewydd.
Mae Dinbych hefyd wedi cyrraedd rownd gyn-derfynol cwpan Ardal Gogledd Lockstock a hynny wedi iddyn nhw guro Llanfair United o 6-0 ym Mharc Canolog gyda goliau gan Jason Foulkes (2), Jake Walker (2), Nathan Brown a Sam Haddon. Yn y gêm gyn-derfynol, bydden nhw'n chwarae yn erbyn Llanfair ym Muallt ym Mharc Canolog ar Ebrill 8fed.
Yn y gynghrair, maen nhw wedi parhau gyda'u buddugoliaethau ac yn ystod y mis diwethaf maen nhw wedi curo Bangor 1876 ddwywaith – o 1-0 ym Mharc Canolog ac yna 2-0 yng Nghaeau Chwarae Treborth.
Maent ar hyn o bryd yn y pedwerydd safle yng Nghynghrair Lockstock Ardal Gogledd Orllewin gyda sawl gêm mewn llaw ar y timoedd uwch eu pennau, sef CPD Y Rhyl 1879, Flint Mountain a Bangor 1876.
Yn dilyn yr holl lwyddiant ar y cae, cafodd y rheolwr, Dewi Llion Jones, ei wobrwyo gyda Rheolwr y Mis gan y gynghrair ar gyfer mis Chwefror. Dyma wobr haeddiannol iawn i Dewi yn dilyn yr holl berfformiadau gwych gan ei dîm yn 2023.
Mae'r Ail Dîm, dan reolaeth Liam Nash hefyd yn gwneud cynnydd yn dilyn buddugoliaeth o 9-1 yn erbyn Ail Dîm Llangollen, ac 1-0 yn erbyn Ail Dîm Bwrdeistref Conwy. Dim ond un gêm maen nhw wedi ei cholli eleni ac mae'n ymddangos eu bod wedi troi cornel yn dilyn cyfnod digon anodd i ddiwedd 2022.
Mae'r FAW wedi gofyn i'r Clwb gynnal dwy gêm ryngwladol dros wyliau'r Pasg yn dilyn llwyddiant y gemau rhyngwladol a chynhaliwŷd yn y Clwb y llynedd. Mae hyn yn anrhydedd arbennig i'r Clwb gael eu cydnabod fel hyn.
Bydd Tîm Merched Dan 19 Cymru yn chwarae 'gartref' ym Mharc Canolog yn erbyn Tîm Merched Dan 19 Khazakhstan nos Fawrth Ebrill y 4ydd am 6pm, yna yn erbyn Tîm Merched Dan 19 Estonia ar ddydd Llun Ebrill 10fed am hanner dydd.
Gyda'r holl fwrlwm a phrysurdeb yn y Clwb ar hyn o bryd, mae'r Clwb yn edrych am wirfoddolwyr i helpu ar ddiwrnodau gemau. Os allwch helpu, cysylltwch ag Iwan Jones ar 07788627819.





Twrnament Rygbi yr Urdd lle daeth bechgyn Ysgol Twm o'r Nant yn ail.

Gweithdy drymiau Jonny Baxter Uned dan 9 Ysgol Twm o'r Nant.



Daeth plant dosbarth Derbyn ysgol Twm o’r Nant ar ymweliad â’r llyfrgell yn ystod mis Mawrth. Cafodd y plant amser i grwydro o amgylch llyfrgell y plant, amser am stori gan un o staff y Llyfrgell a dewis llyfr gan ddefnyddio’r ciosg hunanwasanaeth i’w roi ar eu cerdyn. Rydym wrth ein boddau yn gweld y plant yn mwynhau dewis a darllen eu llyfrau.




Oergell Gymunedol Dinbych (t. 7)




Côr Newydd (t.12)



Janice Jones (t.28)



Eric Howells (t. 29)

# C.R.D.




Ail Dîm Clwb Rygbi Dinbych = O'r chwith Glyn Jones Hyfforddwr y tîm ieuenctid, Aled Williams, Archie Sussex, Callum Timson, Dan Williams, Elias Mars Jones ac Eilir Jones Hyfforddwr yr ail dîm.




Llongyfarchiadau enfawr i Sian Jones (cyn chwaraewr Clwb Rygbi Dinbych) ar gael ei dewis i gynrychioli Carfan Merched Cymru Dan 18 oed yn y gystadleuaeth Chwe Gwlad.



Tîm dan 10.

Llongyfarchiadau enfawr i Efan Edwards ac i Dîm 7 bob ochor Ysgol Ramadeg Kirkham ar godi y Cwpan yn Nhwrnament Rygbi 7-bob-ochor Ysgol Penbedw ar y cyntaf o Fawrth.






# Clwb Pêl-droed Dinbych



t. 30




Y tîm a ddechreuodd yn y gêm gyn-derfynol
Rhes gefn - Ben Lockley, Keiron Roberts, Aaron Jones, Dan Parry-Jones, Billy Holmes Rhes flaen - Nathan Brown, Jake Walker, Paul Fleming ( Capten) , Craig Pritchard, Sion Jones, Jason Foulkes.



Dewi Llion Jones – 'Rheolwr Y Mis' Chwefror 2023 Ardal Gogledd Orllewin Lock Stock